Solicitors Regulation Authority | SQE

# Cwestiynau enghreifftiol SQE1: Gwybodaeth Gyfreithiol Weithredol (FLK) 1

1 Ebrill 2025

SQE1 yw rhan gyntaf yr asesiad SQE ac mae'n profi eich gallu i ddefnyddio gwybodaeth gyfreithiol weithredol (FLK). Mae strwythur SQE1 wedi'i nodi isod. Prawf amlddewis ar gyfrifiadur yw hwn, sydd ag un ateb gorau i bob cwestiwn.

Rydym yn darparu 170 o gwestiynau enghreifftiol ar gyfer SQE1. Caiff y rhain eu rhannu'n gyfartal rhwng FLK1 (85 cwestiwn) ac FLK2 (85 cwestiwn). Ar ôl pob cwestiwn awgrymir pump ateb posibl. Yr ateb cywir yw'r gorau o'r datganiadau a restrir, a chaiff yr ateb ei nodi gyda'r cwestiynau enghreifftiol. Dim ond un ateb sy'n gywir.

## Diben y cwestiynau enghreifftiol

Cafodd y cwestiynau enghreifftiol eu cynllunio i ddangos y math o gwestiynau a geir yn yr asesiadau FLK1 ac FLK2 a thrwy hynny maent yn helpu darparwyr addysg ac ymgeiswyr i gynllunio hyfforddiant SQE ac i baratoi at yr asesiad. Mae'r cwestiynau enghreifftiol yn dilyn yr un arddull a chawsant eu llunio yn unol â'r un broses â'r cwestiynau a ddefnyddir yn yr asesiad.

Nid yw'r 170 o gwestiynau enghreifftiol yn cynrychioli'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn FLK ac ni chawsant eu cynllunio i fod yn gopi o asesiad SQE1 ei hun, nac i fod yn ffug-asesiad. Does dim modd ail-greu'r profiad o sefyll SQE1 go iawn o weithio trwy'r 170 o gwestiynau enghreifftiol, gan fod yr asesiad go iawn dan amodau llyfr caeedig ac wedi'i amseru.

Fel rhan o'u paratoadau, efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried faint o amser sydd ganddynt i ateb cwestiynau SQE1. I'ch atgoffa, mae pob FLK yn cynnwys 180 o gwestiynau. Caiff pob FLK ei rannu'n ddwy sesiwn, a'r amser safonol a ganiateir ar gyfer pob sesiwn yw 2 awr 33 munud, gyda 90 cwestiwn ym mhob sesiwn. Felly, ar gyfartaledd, bydd gan ymgeiswyr tua 1.7 munud fesul cwestiwn. Bydd angen mwy / llai o amser i ateb rhai cwestiynau na rhai eraill.

Y dyddiad cau o safbwynt y gyfraith y bydd ymgeiswyr yn cael eu harholi arni yn SQE yw pedwar mis calendr cyn dyddiad yr asesiad cyntaf yn y ffenestr asesu.

Rydym yn mynd ati'n barhaus i adolygu'r gyfraith a dulliau ymarfer sy'n berthnasol i'r cwestiynau enghreifftiol, ac rydym yn ymwybodol y gall y gyfraith a dulliau ymarfer newid o fewn y cyfnod o bedwar mis y cyfeirir ato uchod. Bydd y cwestiynau enghreifftiol bob amser yn adlewyrchu'r gyfraith y gellir arholi arni yn yr asesiad SQE1 sydd i ddod. Os bydd newid yn y gyfraith o fewn y cyfnod o bedwar mis cyn asesiad, bydd y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r newid yn y gyfraith ar ôl yr asesiad hwnnw.

## Y marc pasio

Mae'r Bwrdd Asesu yn gosod marc pasio ar gyfer **pob sesiwn arholi** o'r asesiad SQE1. Gosodir y marc pasio ar gyfer pob sesiwn arholi o'r asesiad SQE1, gan ystyried pa mor anodd yw'r cwestiynau yn y sesiwn honno. Mae hyn yn sicrhau bod safon yr asesiad yn parhau'n gyson o'r naill arholiad i'r llall.

# Strwythur SQE1 a mapio'r cwestiynau enghreifftiol

Caiff SQE1 ei ffurfio gan ddau asesiad. Mae cyfanswm o 360 o gwestiynau - 180 ym mhob asesiad. Maent yn rhoi sylw i'r meysydd pwnc canlynol:

1. Cyfraith ac Ymarfer ym maes Busnes; Datrys Anghydfodau; Contractau; Camwedd; System Gyfreithiol Cymru a Lloegr; Cyfraith Gyfansoddiadol a Gweinyddol a Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd, a Gwasanaethau Cyfreithiol.

2. Ymarfer ym maes Eiddo; Ewyllysiau a Gweinyddu Ystadau; Cyfrifon Cyfreithwyr; Cyfraith Tir; Ymddiriedolaethau; Cyfraith ac Ymarfer ym maes Trosedd.

Mae Moeseg ac Ymddygiad Proffesiynol yn cael eu harchwilio'n dreiddiol ar draws y ddau asesiad uchod.

**Cwestiwn 1**

Roedd pensaer wedi derbyn taflen a oedd yn hysbysebu'r pecynnau dylunio gwefannau roedd cwmni dylunio gwefannau'n eu cynnig. Ar gefn y daflen roedd copi o delerau safonol y cwmni dylunio gwefannau a oedd yn cynnwys cymal cyfyngu (limitation clause).

Ysgrifennodd y pensaer lythyr at y cwmni dylunio gwefannau yn gofyn iddynt ddylunio ei wefan ef ac atododd gopi o'i delerau ac amodau safonol yntau gyda'i lythyr, ac nid oedd y rhain yn cynnwys cymal cyfyngu. Rhoddodd y cwmni dylunio gwefannau ddyfynbris (quotation) o £2,500 i'r pensaer.

Llofnododd y pensaer y bonyn ateb ar y llythyr (tear-off slip) a'i anfon yn ôl at y cwmni dylunio gwefannau; roedd y bonyn yn datgan ei fod yn derbyn y dyfynbris yn unol â thelerau ac amodau safonol y cwmni dylunio gwefannau.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'r sefyllfa gyfreithiol?**

A. Roedd y telerau ar y daflen yn cyfrif fel cynnig yr oedd y pensaer wedi'i dderbyn drwy ofyn am ddyfynbris.

B. Roedd y dyfynbris yn cyfrif fel cynnig yr oedd y pensaer wedi'i dderbyn yn unol â thelerau ac amodau safonol y cwmni dylunio gwefannau.

C. Roedd y dyfynbris yn cyfrif fel cynnig yr oedd y pensaer wedi'i dderbyn yn unol â thelerau ac amodau safonol y pensaer.

D. Roedd y llythyr gan y pensaer at y cwmni dylunio gwefannau yn cyfrif fel cynnig yr oedd y cwmni dylunio gwefannau wedi'i dderbyn drwy anfon dyfynbris.

E. Roedd y llythyr gan y pensaer at y cwmni dylunio gwefannau yn cyfrif fel gwrthgynnig (counter offer) yr oedd y cwmni dylunio gwefannau wedi'i dderbyn drwy anfon dyfynbris.

**Cwestiwn 2**

Roedd cwmni wedi creu arwystl ansefydlog (floating charge) dros ei holl asedau er budd cyflenwr masnachol (trade supplier), fel gwarannyn (security) ar gyfer y symiau a fyddai'n ddyledus o bryd i'w gilydd.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, ymrwymodd yr un cwmni i ddyledeb (debenture) gyda banc, gan greu arwystl ansefydlog dros holl asedau'r cwmni, fel gwarannyn ar gyfer benthyciad gan y banc.

Ni chafodd arwystl y cyflenwr masnachol ei gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau. Fodd bynnag, cyn i'r ddyledeb gael ei llofnodi, rhoddodd y cwmni wybod i'r banc bod y cyflenwr masnachol yn meddu ar arwystl ansefydlog dilys dros asedau'r cwmni yn barod. Cafodd y ddyledeb ei chwblhau'n briodol, ac fe'i cofrestrwyd ar unwaith yn Nhŷ'r Cwmnïau. Aeth y cwmni i ddwylo gweinyddwyr (go into administration) ddeg mis ar ôl ymrwymo i'r ddyledeb, gyda symiau dyledus a heb eu talu, i'r cyflenwr masnachol ac i'r banc.

**Pa un o gredydwyr y cwmni sydd â'r hawl gyntaf (prior claim) i asedau'r cwmni?**

A. Y banc, gan fod y ffaith fod y cyflenwr masnachol heb gofrestru ei arwystl yn golygu bod yr arwystl yn annilys (void) yn erbyn y cwmni.

B. Y cyflenwr masnachol, gan fod y banc wedi cael hysbysiad penodol am fodolaeth arwystl y cyflenwr masnachol.

C. Y banc, gan fod y ffaith fod y cyflenwr masnachol heb gofrestru ei arwystl yn golygu bod yr arwystl yn annilys (void) yn erbyn y gweinyddwyr a'r banc.

D. Y cyflenwr masnachol, gan fod arwystl y banc wedi'i greu lai na 12 mis cyn i'r cwmni fynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

E. Y cyflenwr masnachol, gan mai dyddiad creu'r arwystl yw'r unig beth sy'n pennu blaenoriaeth arwystlon ansefydlog.

**Cwestiwn 3**

Cwmni yw'r hawlydd mewn achos am esgeuluster yn erbyn diffynnydd sydd yn bractis cyfrifyddu. Mae'r hawlydd yn ceisio iawndal (damages) gan ei fod yn honni bod y diffynnydd wedi rhoi cyngor proffesiynol esgeulus iddo. Gorchmynnwyd datgeliad safonol.

Mae llythyr dwy-dudalen a anfonodd cynghorydd ariannol at reolwr gyfarwyddwr yr hawlydd wedi ei gynnwys yn rhestr dogfennau'r hawlydd. Mae'r cynghorydd ariannol yn annibynnol o'r ddau barti yn yr ymgyfreitha (litigation). Cafwyd hyd i'r llythyr yn swyddfa rheolwr gyfarwyddwr yr hawlydd, ac mae'r unig gopi ym meddiant cyfreithiwr yr hawlydd. Mae'n amlwg mai'r unig reswm am ysgrifennu'r llythyr yw rhoi cyngor ynghylch drafftio'r llythyr cyn hawlio yn yr ymgyfreitha presennol.

**Pe bai'r hawlydd am wrthod yr hawl i archwilio'r llythyr, ar ba sail y gallai wneud hynny?**

A. Nid yw'r llythyr bellach dan reolaeth y parti sy'n ei ddatgelu.

B. Mae'r llythyr o dan fraint cyngor cyfreithiol (legal advice privilege).

C. Byddai'n anghymesur (disproportionate) â'r materion yn yr achos i ganiatáu archwilio'r llythyr.

D. Mae'r llythyr o dan fraint ymgyfreitha (litigation privilege).

E. Ysgrifennwyd y llythyr ar ôl i sail yr achos (cause of action) gael ei sefydlu (accrued).

**Cwestiwn 4**

Aeth unigolyn sy'n feiciwr brwdfrydig ati fis diwethaf i gorffori siop ar-lein sy'n gwerthu ategolion (accessories) beics. Ef yw'r unig gyfarwyddwr, ac ef a'i ffrind yw'r unig gyfranddalwyr.

Cyn corffori'r cwmni, roedd wedi negodi contract gyda darparwr dillad beicio. Llofnododd y beiciwr brwdfrydig y contract, cyn i'r dystysgrif corffori ddod i law, yn ei enw ei hun ar ran y cwmni.

**I bwy, os unrhyw un, y mae buddiant y contract yn perthyn?**

A. Y cwmni yn unig.

B. Y cyfranddalwyr yn unig.

C. Y beiciwr brwdfrydig yn unig.

D. Y beiciwr brwdfrydig a'r cwmni ar y cyd.

E. Neb, mae'r contract yn un di-rym (void).

**Cwestiwn 5**

Mae menyw yn y DU yn honni bod awdurdod cyhoeddus wedi torri ei hawliau o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er ei bod hi'n dymuno protestio, nid yw'n fodlon dwyn achos llys o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (DHD) yn erbyn yr awdurdod cyhoeddus oherwydd y cyhoeddusrwydd y gallai ei wynebu, ac oherwydd y gost bosibl. Mae gan y fenyw gyfnither (cousin) gyfoethog nad yw wedi'i heffeithio gan yr achos honedig o dorri hawliau, ond sy'n fodlon dwyn achos llys ar ran y fenyw.

**A oes modd i'r gyfnither ddwyn achos cyfreithiol fel cynrychiolydd y fenyw, o dan y DHD?**

A. Oes, gan fod cynrychiolwyr o'r teulu yn benodol yn cael statws cyfreithiol dan y DHD.

B. Oes, gan fod y DHD yn nodi y gall cynrychiolydd ddwyn achos pan fydd anhysbysrwydd (anonymity) yn bryder difrifol i'r dioddefwr.

C. Nac oes, gan mai dim ond dioddefwr yr achos o dorri hawliau sy'n gallu dwyn achos ac nid yw'r gyfnither yn ddioddefwr.

D. Oes, gan y bydd y llys yn fodlon bod y gyfnither, fel cynrychiolydd, yn gallu talu treuliau (expenses) yr achos.

E. Nac oes, gan nad oes modd i gynrychiolydd ddwyn achos o dan y DHD oni bai ei fod yn sefyll ar ran nifer o unigolion sy'n gwneud yn union yr un hawliadau.

**Cwestiwn 6**

Mae cyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig preifat yn bwriadu gwerthu rhywfaint o dir sy'n eiddo i'r cwmni. Mae pob un o'r cyfarwyddwyr yn adnabod prynwr arfaethedig y tir, sef tad un o'r cyfarwyddwyr. Mae holl gyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn gyfranddalwyr yn y cwmni.

Cafodd y tir ei brisio'n annibynnol yn ddiweddar ac mae'n werth £70,000, a chytunir mai hwn fydd y pris gwerthu.

Mae cyfrifon blynyddol diweddaraf y cwmni yn nodi elw net o £770,000 ac asedau net o £600,000. Mae'r cwmni wedi mabwysiadu Rheoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) (heb eu diwygio) fel ei erthyglau cymdeithasiad (articles of association).

**A oes angen i'r cyfranddalwyr gymeradwyo'r bwriad i werthu'r tir?**

A. Nac oes, gan fod y trafodiad yn dod o dan awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr i reoli busnes y cwmni.

B. Nac oes, gan fod y trafodiad yn ymwneud â gwerthu a phrynu tir sy'n ased nad yw'n arian parod.

C. Nac oes, gan fod y trafodiad yn ymwneud â gwerthu a phrynu ased ar ei werth marchnad teg.

D. Oes, gan fod y trafodiad yn ymwneud â gwerthu a phrynu tir sy'n werth mwy na 10% o werth asedau'r cwmni.

E. Oes, gan fod holl gyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn gyfranddalwyr yn y cwmni.

**Cwestiwn 7**

Mae perchennog bwyty Groegaidd yn archebu teils wal sy’n cynnwys dyluniad baner Gwlad Groeg. Ar ôl i’r teils gael eu gosod ar y wal, mae’r perchennog yn sylwi mai baner Uruguay sydd wedi’i haddurno ar y teils. Mae’r perchennog eisiau i deils newydd gael eu gosod yn eu lle.

**Mewn hawliad am dorcontract, pa un o’r mesurau iawndal (damages) canlynol y mae’r llys yn fwyaf tebygol o’i ddyfarnu?**

A. Disgwyliad (expectation).

B. Dibyniaeth (reliance).

C. Cost rhwymedi (cost of cure).

D. Colli amwynder (amenity).

E. Trallod meddwl (mental distress).

**Cwestiwn 8**

Ym mis Mawrth 2024, roedd hawlydd wedi dwyn hawliad yn erbyn ei blymer am dorcontract (breach of contract), yr honnir iddo ddigwydd ym mis Mehefin 2018. Roedd y plymer yn gweithredu fel unig fasnachwr (sole trader).

Ym mis Awst 2024, bu farw'r plymer. Mae cynrychiolwyr personol y plymer yn delio â'i hasedau hi.

Ym mis Hydref 2024, fe wnaeth yr hawlydd gais i roi cynrychiolwyr personol y plymer yn yr hawliad yn lle'r plymer a fu farw, fel bod yr hawliad yn gallu parhau.

**Pa bwerau sydd gan y llys i roi rhywun yn yr hawliad yn lle'r plymer, fel parti a fu farw?**

A. Mae'r llys yn gallu gorchymyn bod parti newydd yn cymryd ei lle, gan fod y cyfnod cyfyngu (limitation period) perthnasol yn dal i fod yn gyfredol pan gyflwynodd yr hawlydd gais ar gyfer disodli (substitution).

B. Nid yw'r llys yn gallu gorchymyn bod parti newydd yn cymryd ei lle gan fod y cyfnod cyfyngu (limitation period) perthnasol wedi dod i ben.

C. Mae'r llys yn gallu gorchymyn bod parti newydd yn cymryd ei lle, gan fod y cyfnod cyfyngu (limitation period) perthnasol yn dal i fod yn gyfredol pan ddechreuodd yr achos.

D. Mae'r llys yn gallu gorchymyn bod parti newydd yn cymryd ei lle, gan fod y cyfnod cyfyngu (limitation period) perthnasol yn dal i fod yn gyfredol pan fu farw'r plymer.

E. Nid yw'r llys yn gallu gorchymyn bod parti newydd yn cymryd ei lle, gan mai busnes y plymer sydd â'r atebolrwydd (liability) o hyd.

**Cwestiwn 9**

Mae dyn yn cael beic yn anrheg. Yn ddiweddarach, mae'n cytuno i werthu'r beic am £25 i fenyw ond nid yw hi wedi talu eto. Wedi hynny, mae e'n darganfod bod y beic yn werth £390. Mae'n dweud wrth y fenyw nad yw'n dymuno gwerthu'r beic mwyach gan ei fod e wedi camddeall ei werth.

**Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i'r fenyw?**

A. Ffurfiwyd contract drwy gydnabyddiaeth a gyflawnwyd (executed consideration).

B. Ffurfiwyd contract gan fod cydnabyddiaeth ddigonol (sufficient consideration) wedi'i haddo.

C. Does dim contract gan nad yw'r gydnabyddiaeth (consideration) yn ddigonol.

D. Does dim contract gan nad oes cydnabyddiaeth lawnddigonol (adequate consideration) wedi'i haddo.

E. Does dim contract gan mai cydnabyddiaeth gyflawnadwy (executory consideration) yn unig yw hon.

**Cwestiwn 10**

Mae'r Llys Apêl (Adran Sifil) yn gwneud penderfyniad o blaid yr hawlydd. Mae'r diffynnydd yn dymuno cael caniatâd i apelio.

**Gan ba un/rai o'r llysoedd canlynol y mae'r pŵer i roi caniatâd i apelio?**

A. Y Llys Apêl yn unig.

B. Y Goruchaf Lys yn unig.

C. Tŷ'r Arglwyddi yn unig.

D. Y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys.

E. Y Llys Apêl a Thŷ'r Arglwyddi.

**Cwestiwn 11**

Mae dyn yn cynnal marchnad ffermwyr boblogaidd iawn ar fferm fach ar gyrion pentref bob dydd Iau. Mae hyn yn golygu bod y pentref yn lle prysur iawn ar ddydd Iau a bydd ceir wedi'u parcio yn creu rhwystr ar lawer o'r ffyrdd. O'r herwydd, nid yw menyw sy'n rhedeg busnes yn y pentref yn gallu dosbarthu ei nwyddau ar ddydd Iau ac mae hi'n colli busnes o ganlyniad.

**Pa sail achos (cause of action) ddylai'r fenyw ei dilyn yn y gyfraith camwedd (in tort)?**

A. Niwsans preifat.

B. Niwsans cyhoeddus.

C. Rylands v Fletcher.

D. Esgeuluster.

E. Atebolrwydd meddianwyr (occupiers' liability).

**Cwestiwn 12**

Mae tri phartner gan bartneriaeth masnachu gyffredin sef: yr uwch bartner, y partner rheoli, a'r isbartner. Mae'r tri phartner yn rhannu elw incwm yn gyfartal ac elw cyfalaf yn unol â'u cyfraniadau cyfalaf fel a ganlyn:

Uwch bartner: 50%

Partner rheoli: 30%

Isbartner: 20%

Bum mlynedd yn ôl, prynodd y cwmni adeilad swyddfa. Mae'r adeilad newydd gael ei werthu am elw, gan greu enillion trethadwy.

**Pwy fydd yn agored i dalu treth ar yr enillion a grëwyd yn y gwerthiant?**

A. Bydd pob partner yn agored i dalu Treth Enillion Cyfalaf (Capital Gains Tax) ar draean (one third) o'r enillion ac ni fydd gan y cwmni unrhyw atebolrwydd.

B. Bydd y cwmni yn agored i dalu Treth Gorfforaeth (Corporation Tax) ar yr enillion i gyd ac ni fydd gan y partneriaid unrhyw atebolrwydd.

C. Bydd pob partner yn agored i dalu Treth Incwm ar draean (one third) o'r enillion ac ni fydd gan y cwmni unrhyw atebolrwydd.

D. Bydd yr uwch bartner yn agored i dalu Treth Enillion Cyfalaf (Capital Gains Tax) ar 50% o'r enillion, y partner rheoli ar 30% o'r enillion a'r isbartner ar 20% o'r enillion.

E. Bydd yr uwch bartner yn agored i dalu Treth Incwm ar 50% o'r enillion, y partner rheoli ar 30% o'r enillion a'r isbartner ar 20% o'r enillion.

**Cwestiwn 13**

Mae gan gwmni ddyddiad cyfeirio cyfrifyddu (accounting reference date) o 31 Rhagfyr. Dechreuodd fasnachu ym mis Ebrill, fel bod ei gyfnod cyfrifyddu cyntaf yn dod i ben ar 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn y dechreuodd fasnachu. Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cyntaf hwn, ni wnaeth y cwmni elw masnachu na cholled fasnachu. Fodd bynnag, gwnaeth y cwmni enillion trethadwy o £75,000 ym mis Tachwedd wrth werthu eiddo rhydd-ddaliadol (freehold). Ni wnaeth y cwmni unrhyw golledion cyfalaf yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cyntaf hwn.

Yn ei ail gyfnod cyfrifyddu, a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr yn y flwyddyn ganlynol, gwnaeth y cwmni golled fasnachu o £45,000. Ni wnaeth y cwmni enillion cyfalaf na cholled gyfalaf yn ystod yr ail gyfnod cyfrifyddu.

**A oes modd i'r golled fasnachu o £45,000 a wnaed yn yr ail gyfnod cyfrifyddu gael ei rhoi yn erbyn yr enillion trethadwy o £75,000 o'r cyfnod cyfrifyddu cyntaf?**

A. Oes, oherwydd na chafwyd unrhyw golledion masnachu na chyfalaf yn y cyfnod cyfrifyddu cyntaf.

B. Nac oes, gan mai dim ond yn erbyn elw masnachu o gyfnod cyfrifyddu cynharach y gellir gosod colled fasnachu.

C. Oes, gan fod yr enillion trethadwy wedi digwydd yn ystod y cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben yn union cyn y cyfnod cyfrifyddu pan ddigwyddodd y golled fasnachu.

D. Nac oes, gan nad oedd y cwmni'n masnachu yn ystod y cyfnod o 12 mis llawn cyn y cyfnod cyfrifyddu pan ddigwyddodd y golled fasnachu.

E. Nac oes, gan fod modd cario colled fasnachu ymlaen a'i rhoi yn erbyn elw masnachu o gyfnod cyfrifyddu dilynol yn unig.

**Cwestiwn 14**

Cafodd cwmni cyfyngedig preifat ei gorffori gyda Rheoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008 (‘yr Erthyglau Enghreifftiol’) fel ei erthyglau cymdeithasiad (articles of association), ond yn ddiweddar, yn dilyn buddsoddiad pellach gan gyfranddalwyr newydd, mae wedi mabwysiadu erthyglau cymdeithasiad diwygiedig. Mae’r erthyglau cymdeithasiad diwygiedig (‘yr Erthyglau Newydd’) yn seiliedig ar yr Erthyglau Enghreifftiol ond hefyd yn cynnwys rhai erthyglau arbennig.

**Beth y mae’n rhaid ei ffeilio gyda’r Cofrestrydd Cwmnïau ar ôl mabwysiadu’r Erthyglau Newydd?**

A. Cofnodion y bwrdd sy’n cynnig y newidiadau i’r Erthyglau Enghreifftiol a phenderfyniad y cyfranddalwyr i fabwysiadu’r Erthyglau Newydd.

B. Penderfyniad y cyfranddalwyr i fabwysiadu’r Erthyglau Newydd a’r ffi benodedig.

C. Yr Erthyglau Newydd a’r ffi benodedig.

D. Penderfyniad y cyfranddalwyr i fabwysiadu’r Erthyglau Newydd, a’r Erthyglau Newydd.

E. Cofnodion y bwrdd sy’n cynnig y newidiadau i’r Erthyglau Enghreifftiol, a’r Erthyglau Newydd.

**Cwestiwn 15**

Yn ystod treial cyflwynir gwahanol ddadleuon i'r barnwr ynglŷn ag union ystyr un adran benodol o statud berthnasol. Wrth benderfynu ar yr achos, mae'r barnwr yn ystyried yn gyntaf beth yw ystyr cyffredin naturiol y geiriau a ddefnyddir. Fodd bynnag, mae dehongli'r geiriau hynny yn y ffordd honno yn golygu rhoi ystyr abswrd i'r adran. Felly mae'r barnwr, wrth ddod i benderfyniad, yn dehongli'r geiriau mewn ffordd wahanol nad yw'n arwain at ystyr abswrd.

**Pa ddull o ddehongli statudol a ddefnyddiodd y barnwr?**

A. Y rheol lythrennol (literal).

B. Y rheol drygau (mischief).

C. Y rheol tystiolaeth allanol.

D. Y rheol aur.

E. Y rheol tystiolaeth gynhenid (intrinsic).

**Cwestiwn 16**

Yn dilyn cyfres o ffrwydradau terfysgol yng nghanol Llundain, rhoddodd y llywodraeth bwerau uchelfreiniol brys (emergency prerogative powers) ar waith. Roedd y pwerau hyn yn galluogi'r llywodraeth i gymryd rheolaeth dros adeiladau masnachol a ddifrodwyd yn y ffrwydradau. Roedd y pwerau hefyd yn galluogi'r llywodraeth i wrthod mynediad i feddianwyr (occupiers) i'r adeiladau hynny tra bo timau fforensig yn ymgymryd â'r broses hir o gasglu tystiolaeth.

Gan gydnabod yr effaith ar feddianwyr adeiladau o'r math yma, pasiodd Senedd y Deyrnas Unedig ddeddfwriaeth i greu cynllun digolledu (compensation) a fyddai'n galluogi'r bobl hynny sydd wedi cael eu heffeithio i hawlio costau a cholledion tra bo'r adeiladau hynny o dan reolaeth y llywodraeth.

Er gwaethaf y ddeddfwriaeth newydd hon, mae'r llywodraeth yn parhau i ddefnyddio'r pwerau uchelfreiniol er mwyn osgoi talu digollediad o'r fath o dan y cynllun statudol.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n rhoi'r crynodeb gorau o'r sefyllfa gyfreithiol?**

A. Pan fo gorgyffwrdd rhwng pŵer uchelfreiniol a statud, nid yw'r naill yn drech na'r llall (neither prevails); mae'r llysoedd yn troi at y gyfraith gyffredin am arweiniad.

B. Pan fo gorgyffwrdd rhwng pŵer uchelfreiniol a statud, y statud sydd drechaf (prevails).

C. Pan fo gorgyffwrdd rhwng pŵer uchelfreiniol a statud, y pŵer uchelfreiniol sydd drechaf (prevails).

D. Pan fo gorgyffwrdd rhwng pŵer uchelfreiniol a statud, gall y barnwr sy'n delio â'r mater droi at drafodaethau yn Senedd y Deyrnas Unedig i gael arweiniad.

E. Pan fo gorgyffwrdd rhwng pŵer uchelfreiniol a statud, gall y barnwr sy'n delio â'r mater droi at lys uwch i gael arweiniad.

**Cwestiwn 17**

Mae cyfreithiwr yn delio ag achos o esgeuluster ar ran cleient. Ar y dechrau, rhoddodd y cyfreithiwr amcangyfrif ysgrifenedig o gyfanswm tebygol y costau, sef £15,000 gan gynnwys ffioedd y bargyfreithiwr ac alldaliadau (disbursements) eraill. Rai wythnosau'n ddiweddarach, mae'r cyfreithiwr yn penderfynu bod angen tystiolaeth arbenigol hefyd a bydd hyn yn costio £3,000 yn ychwanegol.

**Pa un o'r canlynol sy'n egluro orau'r hyn y dylai'r cyfreithiwr ei wneud nesaf?**

A. Does dim angen i'r cyfreithiwr wneud dim gan fod y cleient wedi cael gwybod mai dim ond amcangyfrif a gafodd ar y dechrau.

B. Does dim angen i'r cyfreithiwr wneud dim gan fod costau arbenigwyr yn cael eu dyfarnu gan y llys.

C. Does dim angen i'r cyfreithiwr wneud dim gan nad oes yn rhaid iddo ddweud wrth y cleient am gostau trydydd parti.

D. Dylai'r cyfreithiwr ysgrifennu at y cleient i roi gwybod iddo am gostau'r arbenigwr a gofyn am gyfarwyddyd gan fod yn rhaid i gyfreithiwr gael caniatâd ymlaen llaw ar gyfer pob eitem o wariant.

E. Dylai'r cyfreithiwr ysgrifennu at y cleient i roi gwybod iddo am gostau'r arbenigwr a gofyn am gyfarwyddyd gan nad yw'r amcangyfrif gwreiddiol yn gywir mwyach.

**Cwestiwn 18**

Honnir bod gwladolyn o'r tu allan i'r DU (non-UK national) ac sy'n byw yn y DU wedi cyflawni trosedd ddifrifol yn ei wlad enedigol. Nid yw ei wlad enedigol yn un o lofnodwyr y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ('y Confensiwn').

Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi gorchymyn i allgludo (deport) y dyn i'w wlad enedigol. Fodd bynnag, mae'r dyn yn honni y bydd tystiolaeth yn cael ei defnyddio yn ei erbyn mewn perthynas â'r drosedd honedig, a'r dystiolaeth honno wedi'i chael drwy artaith (torture). Mae'r dyn yn apelio o dan y Confensiwn yn erbyn y gorchymyn allgludo yn yr Uchel Lys, ac mae'r Uchel Lys yn derbyn honiad y dyn.

**Pa un o'r canlynol sy'n egluro orau p'un a fyddai'r Uchel Lys yn cefnogi (uphold) y gorchymyn allgludo?**

A. Ni fyddai'n cefnogi'r gorchymyn gan fod y Confensiwn yn nodi bod yn rhaid i aelod-wledydd sicrhau hawliau'r Confensiwn i bawb o fewn eu hawdurdodaeth.

B. Ni fyddai'n cefnogi'r gorchymyn gan fod yn rhaid i Lys Hawliau Dynol Ewrop ystyried rhinweddau penderfyniadau allgludo sy'n ymwneud â hawliau dynol gwladolion o wledydd nad ydynt yn un o'r llofnodwyr.

C. Byddai'n cefnogi'r gorchymyn gan nad yw llywodraeth y DU yn gyfrifol am y ffordd y mae gwladwriaeth sofran (sovereign) arall yn cael tystiolaeth i'w defnyddio mewn treialon troseddol.

D. Byddai'n cefnogi'r gorchymyn gan nad yw gwladolion o'r tu allan i'r DU yn elwa ar amddiffyniad hawliau dynol y DU.

E. Byddai'n cefnogi'r gorchymyn oherwydd honnir bod y dyn wedi cyflawni trosedd ddifrifol ac nid amddiffyn troseddwyr yw bwriad y Confensiwn.

**Cwestiwn 19**

Mae dyn yn cyfarwyddo ei gyfreithiwr i weithredu ar ei ran wrth brynu holl gyfalaf cyfrannau a roddwyd (issued share capital) cwmni cyfyngedig preifat gan gwmni arall. Mae'r cyfreithiwr yn cynghori ynghylch prynu'r cyfrannau ac yn helpu i baratoi a negodi yr holl ddogfennau angenrheidiol.

Nid yw'r cyfreithiwr na'i gwmni wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gyflawni 'gweithgaredd a reoleiddir' fel y'i diffinnir yn Neddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

**A yw'r cyfreithiwr wedi torri'r gwaharddiad (prohibition) cyffredinol yn erbyn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir?**

A. Do, gan fod y cyfreithiwr wedi rhoi cyngor ar brynu cyfrannau mewn cwmni penodol ac nid oes eithriad (exclusion) nac esemptiad (exemption) yn berthnasol.

B. Do, gan fod y trafodiad yn cynnwys prynu holl gyfalaf cyfrannau'r cwmni, ac nid oes eithriad (exclusion) nac esemptiad (exemption) yn berthnasol.

C. Naddo, gan fod eithriad (exclusion) yn berthnasol i gwmnïau proffesiynol sy'n cael eu goruchwylio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr pan fyddant yn ymgymryd â gwaith corfforaethol.

D. Naddo, gan fod eithriad (exclusion) yn berthnasol os yw'r trafodiad yn ymwneud â phrynu unrhyw nifer o gyfrannau mewn cwmni cyfyngedig preifat.

E. Naddo, gan fod eithriad (exclusion) yn berthnasol os yw'r trafodiad yn cynnwys o leiaf 50% o'r cyfrannau pleidlais yn y cwmni.

**Cwestiwn 20**

Mae hawlydd yn dwyn hawliad yn erbyn diffynnydd, ac yn ceisio iawndal (damages) am dorcontract. Mae'r hawlydd yn honni bod y partïon wedi cytuno ar lafar i newid y contract. Mae'r diffynnydd yn gwadu (deny) bod gan y partïon gytundeb o'r fath. Yr unig dystiolaeth ar y mater hwn, a fydd yn pennu canlyniad yr hawliad, yw tystiolaeth lafar yr hawlydd a'r diffynnydd, sy'n gwrthdaro â'i gilydd.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r baich prawf (burden of proof), os o gwbl, y bydd y llys yn ei ddefnyddio wrth benderfynu ar y mater?**

A. Mae'r baich ar y diffynnydd i wrthbrofi honiad yr hawlydd y tu hwnt i bob amheuaeth resymol (beyond reasonable doubt).

B. Mae'r baich ar y diffynnydd i wrthbrofi honiad yr hawlydd yn ôl pwysau tebygolrwydd (balance of probabilities).

C. Nid yw'r naill barti na'r llall yn ysgwyddo'r baich prawf a bydd y barnwr yn gorchymyn ail dreial os na all fod yn siŵr ynglŷn â thystiolaeth pa barti sy'n gywir.

D. Mae'r baich ar yr hawlydd i brofi'r honiad yn ôl pwysau tebygolrwydd (balance of probabilities).

E. Mae'r baich ar yr hawlydd i brofi'r honiad y tu hwnt i bob amheuaeth resymol (beyond reasonable doubt).

**Cwestiwn 21**

Mae dyn yn defnyddio ei feic mynydd newydd sy'n eitem o'r radd flaenaf (state of the art). Mae gan y beic ffrâm fetel sydd wedi'i datblygu'n arbennig i wella perfformiad y beic dros dir garw. Ond, gan fod y metel yn rhai o'r sgriwiau wedi cyrydu (corrode), ac nad oedd modd rhagweld hyn, mae cyrn (handlebars) y beic yn torri'n ddau wrth i'r dyn ei ddefnyddio. Mae'r dyn yn torri ei ddau arddwrn.

**Pa un o'r canlynol sy'n egluro'r sefyllfa orau o ran a yw'r dyn yn gallu adfer iawndal (damages) am ei anafiadau o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr (Consumer Rights Act) 1987?**

A. Mae e'n gallu gan fod y beic yn ddiffygiol.

B. Mae e'n gallu gan fod y ddyletswydd gofal wedi cael ei thorri.

C. Mae e'n gallu gan nad yw ei anafiadau'n rhy bellennig (remote).

D. Nid yw e'n gallu gan nad oedd modd rhagweld yr anafiadau.

E. Nid yw e'n gallu gan nad yw iawndal am anafiadau personol yn cael ei ddyfarnu o dan y Ddeddf Diogelu Defnyddwyr.

**Cwestiwn 22**

Mae hawliad am iawndal (damages) am esgeuluster proffesiynol yn cael ei setlo ar delerau lle mae'n rhaid i'r diffynnydd, sy'n syrfëwr, dalu iawndal o £60,000 i'r hawlydd ynghyd â chostau cyfreithiol yr hawlydd, i'w hasesu ar y sail safonol (standard basis).

Flwyddyn yn ôl, roedd yr hawlydd wedi ymrwymo i gytundeb ffi amodol ysgrifenedig gyda'i chyfreithiwr a oedd yn darparu ar gyfer ffi llwyddo o 90%. Mae'r cyfreithiwr wedi cyfrifo bod ei gostau proffesiynol yn £20,000 cyn ychwanegu'r ffi llwyddo a TAW.

**Pa swm all y cyfreithiwr ei godi ar y cleient am ei ffioedd proffesiynol, heb gynnwys TAW?**

A. £15,000

B. £18,000

C. £30,000

D. £35,000

E. £38,000

**Cwestiwn 23**

Mewn apêl gerbron y Llys Apêl, mae'r apelydd yn dibynnu, mewn dadl, ar benderfyniad cynharach Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor (Judicial Committee of the Privy Council) sy'n nodi y dylid caniatáu'r apêl. Mae'r ymatebydd yn dibynnu, mewn dadl, ar benderfyniad cynharach y Llys Apêl sy'n nodi na ddylid caniatáu'r apêl.

**Sut y dylai'r Llys Apêl drin y ddau benderfyniad y cyfeiriwyd atynt?**

A. Dylai'r llys ystyried ei fod wedi'i rwymo wrth benderfyniad cynharach Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor.

B. Dylai'r llys ystyried ei fod wedi'i rwymo wrth benderfyniad cynharach y Llys Apêl.

C. Dylai'r llys ystyried ei fod wedi'i rwymo wrth y ddau benderfyniad cynharach a rhaid trosglwyddo'r apêl i lys uwch.

D. Dylai'r llys drin y ddau benderfyniad cynharach fel rhai â gwerth darbwyllol (persuasive) yn unig a rhaid iddo benderfynu pa un o'r ddau i'w ddilyn.

E. Dylai'r llys drin y ddau benderfyniad cynharach fel rhai heb werth cynsail (precedent) a dylai wneud penderfyniad heb ystyried y naill na'r llall.

**Cwestiwn 24**

Mae plaid wleidyddol yn penderfynu cynnal cyfarfod yn y sgwâr canolog mewn dinas. Disgwylir i un o'r arweinwyr wneud araith a fydd yn gwylltio nifer yn y boblogaeth leol.

**Pa un o'r datganiadau canlynol yw'r disgrifiad gorau o bwerau'r heddlu yn y sefyllfa hon?**

A. Gall y Prif Gwnstabl orfodi amodau yn gysylltiedig â'r cyfarfod er mwyn atal anhrefn difrifol.

B. Rhaid i'r trefnwyr gael caniatâd gan y Prif Gwnstabl i gynnal y cyfarfod.

C. Gall y Prif Gwnstabl wahardd y cyfarfod os nad oes ganddo ddigon o adnoddau i'w blismona.

D. Dim ond os bydd mwy na 200 o bobl yn bresennol y gall yr heddlu reoleiddio'r cyfarfod.

E. Gall unrhyw swyddog heddlu fynnu bod y cyfarfod yn dod i ben.

**Cwestiwn 25**

Mae tri chleient yn penderfynu dechrau busnes gyda'i gilydd. Mae pob un ohonynt yn buddsoddi symiau cyfalaf cyfartal yn y busnes, ac yn cytuno i rannu'r elw'n gyfartal. Ar ôl dwy flynedd, mae'r busnes wedi gwneud colled ac nid yw'r cleientiaid yn teimlo bellach bod y busnes yn hyfyw (viable).

**A yw'r tri chleient wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd?**

A. Do, gan eu bod wedi dechrau busnes gyda'i gilydd ac wedi bwriadu gwneud elw er eu bod wedi gwneud colled.

B. Do, gan eu bod wedi cytuno i fuddsoddi'r un faint o gyfalaf yn y busnes.

C. Naddo, gan nad ydynt wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth ysgrifenedig.

D. Naddo, gan nad ydynt wedi cofrestru fel partneriaeth.

E. Naddo, gan eu bod wedi cytuno i rannu'r elw'n gyfartal ond ni wnaethant gytuno sut i rannu colledion rhyngddynt.

**Cwestiwn 26**

Mae cwmni wedi creu arwystl sefydlog (fixed charge) o blaid ei fanc dros beiriannau sy’n eiddo i’r cwmni ac sy’n cael eu defnyddio yn ffatri’r cwmni. Mae’r cwmni yn un solfent. Mae’r arwystl sefydlog wedi’i gofrestru’n briodol yn Nhŷ’r Cwmnïau. Bellach mae’r cwmni’n dymuno gwerthu rhai o’r peiriannau ac yn ceisio cyngor cyfreithiol ar sut i fwrw ymlaen.

**Pa gyngor y dylid ei roi i’r cwmni ynglŷn â gwerthu’r peiriannau?**

A. Mae’r cwmni’n gallu bwrw ymlaen i werthu’r peiriannau am nad yw’r arwystl wedi cael ei grisialu (crystallised) eto.

B. Dim ond os yw’n cael caniatâd y banc fel deiliad yr arwystl y gall y cwmni werthu’r peiriannau.

C. Dim ond os yw’r banc yn rhan o’r gwerthiant y gall y cwmni werthu’r peiriannau am fod gan y banc deitl cyfreithiol i’r peiriannau.

D. Dim ond os yw’n cael caniatâd ei gredydwyr ansicredig (unsecured) y gall y cwmni werthu’r peiriannau.

E. Mae’r cwmni’n gallu bwrw ymlaen i werthu’r peiriannau pan fydd wedi cofrestru’r gwerthiant yn Nhŷ’r Cwmnïau.

**Cwestiwn 27**

Roedd cwmni ('y Manwerthwr') wedi ymrwymo i gontract gyda chwmni arall ('y Cyflenwr') i brynu 30,000 o focsys pecyn fflat (flat-pack boxes) am bris o £60,000. Talodd y Manwerthwr flaendal o £20,000.

Pan gafodd y bocsys eu dosbarthu roeddent yn ddiffygiol ac nid oedd y Cyflenwr yn gallu cyflenwi bocsys yn eu lle. Gwrthododd y Manwerthwr y bocsys ac ni thalodd weddill y pris prynu. Er mwyn osgoi colledion pellach prynodd y Manwerthwr focsys gan gyflenwr arall am £70,000.

Mae'r Manwerthwr wedi dilyn yr holl weithdrefnau cyn-gweithredu priodol, ac mae cyfreithiwr y Manwerthwr bellach yn barod i ddrafftio a chyflwyno ffurflen hawlio.

**Gan anwybyddu llog, pa swm all y Manwerthwr ei hawlio'n briodol yn erbyn y Cyflenwr?**

A. £70,000

B. £10,000

C. £30,000

D. £20,000

E. £60,000

**Cwestiwn 28**

Mae gweithiwr iau mewn gwersyll haf i bobl ifanc wedi'i gael yn euog o ymosod ar un o'r gwersyllwyr. Mae'r dioddefwr yn dwyn achos yn erbyn trefnwyr y gwersyll am iawndal (damages) am drawma seicolegol ar y sail bod y gwersyll yn atebol yn ddirprwyol (vicariously liable) am weithredoedd y gweithiwr.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau a fydd atebolrwydd dirprwyol yn berthnasol?**

A. Bydd atebolrwydd dirprwyol yn berthnasol os oes cysylltiad digon agos rhwng gweithred y gweithiwr a'i gyflogaeth.

B. Ni all atebolrwydd dirprwyol fod yn berthnasol i ymddygiad troseddol.

C. Dim ond os digwyddodd yr ymosodiad yn ystod oriau gwaith y bydd atebolrwydd dirprwyol yn berthnasol.

D. I uwch weithwyr yn unig y gall atebolrwydd dirprwyol fod yn berthnasol.

E. Ni fydd atebolrwydd dirprwyol yn berthnasol gan na chafodd y cyflogwr unrhyw fuddiant.

**Cwestiwn 29**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran cleient mewn perthynas â phrynu cwmni cyfyngedig preifat. Ddau ddiwrnod cyn cwblhau'r trafodiad mae'r cyfreithiwr yn amau y bydd ei gleient yn defnyddio'r trafodiad i wyngalchu arian (launder money). Mae'r cyfreithiwr yn rhoi gwybod am hyn i'r swyddog enwebedig (nominated officer) sydd wedyn yn anfon adroddiad am weithgarwch amheus i'r awdurdod perthnasol.

**Pa gamau y dylai'r cyfreithiwr eu cymryd yn awr?**

A. Bwrw ymlaen â'r trafodiad gan fod y cyfreithiwr wedi gwneud y datgeliad i'r swyddog enwebedig.

B. Bwrw ymlaen â'r trafodiad ond dim ond ar ôl cael awdurdod i wneud hynny gan y swyddog enwebedig.

C. Bwrw ymlaen â'r trafodiad ar ôl cyfnod o dri diwrnod gwaith os na ddaw ymateb gan yr awdurdod perthnasol.

D. Egluro wrth y cleient na all y cyfreithiwr weithredu gan fod adroddiad am weithgarwch amheus wedi cael ei anfon.

E. Egluro wrth y cleient bod adroddiad o weithgarwch amheus wedi cael ei anfon ac yna bwrw ymlaen â'r trafodiad.

**Cwestiwn 30**

Ym mis Mawrth, roedd prynwr wedi ymrwymo i gontract i brynu meithrinfa plant, yn dilyn datganiad twyllodrus (fraudulent) a wnaed gan y gwerthwr ym mis Ionawr am ffigurau gwerthiant y flwyddyn flaenorol.

Ym mis Ebrill, ar ôl prynu'r feithrinfa, roedd y prynwr wedi cyflogi adeiladwr i wneud gwaith adeiladu sylweddol ar y feithrinfa gan gynnwys dymchwel adeiladau allanol ac ychwanegu estyniad.

Ym mis Mai, roedd y prynwr wedi darganfod nad oedd y datganiad twyllodrus yn wir a phenderfynodd ei fod am ddad-wneud (rescind) y contract.

**A allai'r prynwr ddad-wneud y contract?**

A. Na allai, gan nad yw dad-wneud yn bosibl fel rhwymedi am gamliwio (remedy for misrepresentation).

B. Na allai, gan fod trydydd parti wedi derbyn hawliau.

C. Na allai, gan fod y prynwr wedi cadarnhau (affirmed) y contract.

D. Na allai, gan fod adfer (restitution) yn amhosibl.

E. Na allai, gan fod rhwystr statudol o dan Ddeddf Camliwio (Misrepresentation Act) 1967.

**Cwestiwn 31**

Mae gweithiwr anabl mewn cwmni o gyfreithwyr wedi gofyn i'r cwmni brynu meddalwedd gyfrifiadurol iddo ei defnyddio yn y gwaith. Mae'r feddalwedd hon yn galluogi rhywun sydd ag anabledd y gweithiwr i ddefnyddio cyfrifiadur yn fwy effeithiol. Mae'r partneriaid yn y cwmni eisiau cyngor ar eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf').

**Beth y mae'n rhaid i'r partneriaid yn y cwmni ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf?**

A. Rhaid iddynt wneud addasiadau sylweddol (substantial) i sicrhau nad yw'r gweithiwr anabl dan anfantais o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn anabl.

B. Rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw'r gweithiwr anabl dan anfantais sylweddol (substantial) o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn anabl.

C. Rhaid iddynt wneud addasiadau i sicrhau nad yw'r gweithiwr anabl dan anfantais arwyddocaol (significant) o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn anabl.

D. Rhaid iddynt wneud addasiadau arwyddocaol (significant) i sicrhau nad yw'r gweithiwr anabl dan anfantais o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn anabl.

E. Rhaid iddynt wneud addasiadau i sicrhau nad yw'r gweithiwr anabl dan anfantais afresymol o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn anabl.

**Cwestiwn 32**

Cafodd cyfreithiwr mewn cwmni o gyfreithwyr alwad ffôn gan reolwr gyfarwyddwr cwmni cyfyngedig preifat sydd wedi'i gorffori yn y DU, sydd yn gleient newydd. Mae'r rheolwr gyfarwyddwr eisiau gwybod pam bod cwmni'r cyfreithiwr yn gofyn am ddogfennau i wirio hunaniaeth cyfranddaliwr y cwmni. Mae cyfranddaliwr y cwmni yn byw ym Mrasil ac yn dal, ac yn berchen ar, holl gyfrannau y cwmni.

**Pa un o'r ymatebion canlynol sy'n egluro orau y cyngor y dylai'r cyfreithiwr ei roi i'r rheolwr gyfarwyddwr?**

A. Mae'n ddyletswydd ar y cyfreithiwr i wybod pwy yw cyfranddaliwr y cwmni ac i wirio ei hunaniaeth gan fod y cyfranddaliwr yn byw y tu allan i'r DU.

B. Mae'n ddyletswydd ar y cyfreithiwr i wybod pwy yw cyfranddaliwr y cwmni ac i wirio ei hunaniaeth gan fod y cyfranddaliwr yn byw ym Mrasil.

C. Mae'n ddyletswydd ar y cyfreithiwr i wybod pwy yw cyfranddaliwr y cwmni a gwirio ei hunaniaeth gan fod y cyfranddaliwr yn berchen ar fwy na 25% o'r cyfrannau.

D. Mae'n ddyletswydd ar y cyfreithiwr i wybod pwy yw cyfranddaliwr y cwmni ac i wirio ei hunaniaeth oherwydd strwythur y cwmni a'r ffordd y mae'r cyfrannau'n cael eu dal gan y cyfranddaliwr.

E. Mae'n ddyletswydd ar y cyfreithiwr i wybod pwy yw cyfranddaliwr y cwmni ac i wirio ei hunaniaeth gan mai dim ond un cyfranddaliwr sydd gan y cwmni.

**Cwestiwn 33**

Trefnodd dyn i asiant eiddo werthu ei eiddo. Roedd dogfen ysgrifenedig yn cynnwys telerau'r cytundeb rhyngddynt. Roedd y cytundeb yn nodi y caiff comisiwn ei dalu i'r asiant eiddo wrth gwblhau'r gwerthiant, ar yr amod mai'r asiant eiddo sy'n cyflwyno'r prynwr.

Cwblhawyd gwerthiant yr eiddo, a chododd anghydfod ynghylch a oedd gwerthwr yr eiddo wedi cyflwyno'r prynwr, ai peidio. Daeth yr asiant eiddo ag achos yn erbyn y dyn, i dalu'r comisiwn yr honnwyd ei fod yn ddyledus o dan y cytundeb ysgrifenedig. Bu'r achos yn llwyddiannus yn y treial, a dyfarnwyd iawndal (damages) o £12,000 i'r asiant eiddo.

**Pa orchymyn am gostau, os o gwbl, y gellid ei ddisgwyl o dan amgylchiadau'r achos hwn?**

A. Dim gorchymyn am gostau gan fod yr hawliad wedi codi o gontract defnyddiwr o fewn ystyr Deddf Hawliau Defnyddwyr (Consumer Rights Act) 2015.

B. Gorchymyn o blaid yr asiant eiddo, wedi'i gyfyngu i ad-dalu ffioedd y llys a dalwyd gan mai hawliad bychan yw'r hawliad.

C. Dim gorchymyn am gostau gan mai hawliad bychan yw'r hawliad.

D. Gorchymyn o blaid yr asiant eiddo am gostau adenilladwy sefydlog (fixed recoverable costs) yn unig.

E. Gorchymyn o blaid yr asiant eiddo am gostau ar y sail safonol (standard basis), wedi eu hasesu'n ddiannod (summarily) ar ddiwedd y treial.

**Cwestiwn 34**

Mae cwmni'n prynu drymiau o asid glanhau diwydiannol gan fenyw, ac yn eu storio yn ffatri'r cwmni. Nid yw'r drymiau'n addas ar gyfer storio'r asid, ac mae'r asid yn gollwng gan achosi difrod i lawr y ffatri.

Mae un o weithwyr y cwmni'n gweld bod hyn yn achosi difrod i'r llawr ond nid yw'n symud y drymiau. Gallai'r drymiau fod wedi cael eu symud heb gost i'r cwmni. Mae'r cwmni'n hawlio £5,000 sef cost trwsio'r llawr. Mae'r fenyw'n gwrthod talu'r swm hwnnw gan ddadlau y dylai'r iawndal (damages) sy'n daladwy fod yn is.

**A fydd dadl y fenyw yn llwyddiannus?**

A. Bydd, gan fod dyletswydd ar y cwmni i leihau ei golledion drwy symud y drymiau.

B. Bydd, gan fod y cwmni'n euog o esgeuluster cyfrannol (contributory negligence) drwy beidio â symud y drymiau.

C. Na fydd, gan fod yn rhaid i'r fenyw dalu iawndal i'r cwmni am yr holl golledion sy'n deillio o hyn.

D. Na fydd, gan fod yn rhaid i'r fenyw dalu iawndal i'r cwmni am yr holl golledion sydd o fewn ystyriaeth resymol (reasonable contemplation) y cwmni.

E. Bydd, gan fod toriad yn y gadwyn achosiaeth (chain of causation).

**Cwestiwn 35**

Mae cyfreithiwr wedi'i gyfarwyddo gan gwmni cleient sy'n cael anawsterau o ran llif arian. Mae'r cleient wedi gofyn i'r cyfreithiwr roi cyngor ynglŷn â dyletswyddau ei gyfarwyddwyr mewn perthynas â monitro sefyllfa ariannol y cwmni. Yn ystod y trafodaethau, mae'r cleient yn dweud bod y cwmni'n ystyried gwella ei sefyllfa ariannol drwy fuddsoddi mewn gwarannau ecwiti (equity securities) ac mae'n gofyn a all y cyfreithiwr argymell unrhyw stocbroceriaid i'r cleient.

Mae brawd y cyfreithiwr yn bartner mewn cwmni o stocbroceriaid sydd wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac sydd wedi sicrhau enillion sylweddol i'r cyfreithiwr ac i gleientiaid eraill.

O ran argymell, mae'r cyfreithiwr wedi dod i'r casgliad:

(i) ni fyddai'n peryglu ei annibyniaeth fel cynghorwr cyfreithiol y cleient mewn unrhyw ffordd; a
(ii) byddai er budd pennaf (best interests) y cleient gan mai'r stocbroceriaid hyn yw'r gorau yn y maes hwn.

Ni fydd y cyfreithiwr yn cael budd ariannol o'r argymhelliad. Mae'r cyfreithiwr yn gwybod y byddai ei frawd yn ddiolchgar bod busnes yn cael ei gyflwyno iddo.

**Pa un o'r camau canlynol ddylai'r cyfreithiwr ei gymryd nesaf?**

A. Rhoi'r gorau i weithredu ar ran y cleient.

B. Argymell unigolyn yn y cwmni o stocbroceriaid i'r cleient yn hytrach nag at frawd y cyfreithiwr.

C. Sicrhau cadarnhad ysgrifenedig gan ei frawd na fydd y cyfreithiwr yn cael budd ariannol am argymell busnes.

D. Rhoi gwybod i'r cleient bod brawd y cyfreithiwr yn bartner yn y cwmni o stocbroceriaid.

E. Gofyn i rywun arall yng nghwmni'r cyfreithiwr i argymell y cwmni o stocbroceriaid i'r cleieint.

**Cwestiwn 36**

Mae cleient yn gwrthwynebu penderfyniad sydd wedi cael ei wneud i roi caniatâd cynllunio i adeiladu archfarchnad ar dir ger ei gartref. Mae’r cleient wedi darganfod bod cadeirydd y pwyllgor cynllunio a wnaeth y penderfyniad yn gyfarwyddwr anweithredol (non-executive) ar y gadwyn archfarchnadoedd dan sylw.

**Pa un o’r canlynol yw’r disgrifiad gorau o statws y penderfyniad hwn?**

A. Bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon dim ond pan fydd y ffeithiau’n awgrymu i’r llys fod gwrthdaro buddiannau (conflict of interest) mewn gwirionedd a bod y penderfyniad mewn gwirionedd yn dangos tuedd (bias).

B. Os gall y cleient brofi y byddai arsyllwr (observer) teg a gwybodus yn dod i’r casgliad yn naturiol bod gwrthdaro buddiannau (conflict of interest), bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried yn un sy’n dangos tuedd (bias) yn awtomatig ac felly ei fod yn anghyfreithlon.

C. Er mwyn i’r penderfyniad dorri’r rheol yn erbyn tuedd (bias) ac felly gael ei ystyried yn anghyfreithlon, rhaid i’r cleient brofi i’r llys yn ôl pwysau tebygolrwydd (balance of probabilities) fod y cadeirydd mewn gwirionedd yn dangos tuedd.

D. Bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon dim ond os bydd y ffeithiau’n awgrymu i’r llys y byddai arsyllwr (observer) teg a gwybodus yn dod i’r casgliad bod y penderfyniad yn dangos tuedd (bias).

E. Os bydd y ffeithiau’n awgrymu i’r llys y byddai arsyllwr (observer) teg a gwybodus yn dod i’r casgliad bod posibilrwydd gwirioneddol o duedd (bias), bydd y penderfyniad yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon.

**Cwestiwn 37**

Mae cyfreithiwr yn cynghori cleient ar gontract cyflogaeth ynglŷn â swydd a gynigiwyd i'r cleient mewn cwmni newydd (start-up company). Ar hyn o bryd mae'r cleient mewn swydd barhaol mewn cwmni sydd wedi'i hen sefydlu.

Y diwrnod canlynol, dros ginio yn y clwb golff, mae'r cyfreithiwr yn eistedd wrth ymyl person mae'n ei adnabod rywfaint. Mae'r person hwnnw'n dweud wrth y cyfreithiwr ei fod yn poeni bod y busnes y mae'n gweithio iddo am fethu'n ariannol am fod ei brif gwsmer am fynd i ddwylo'r derbynnydd (taken into receivership) yn fuan. Yna mae'n dweud wrth y cyfreithiwr beth yw enw'r busnes y mae'n gweithio iddo. Er syndod i'r cyfreithiwr, drwy gyd-ddigwyddiad, y cwmni newydd yw hwn.

**A oes dyletswydd ar y cyfreithiwr i roi gwybod i'r cleient am y pryderon ynglŷn â rhagolygon ariannol y cwmni newydd?**

A. Nac oes, oherwydd cafwyd yr wybodaeth yn ystod bywyd personol y cyfreithiwr ac felly nid yw'n effeithio ar ei ddyletswyddau proffesiynol.

B. Nac oes, gan fod y ddyletswydd cyfrinachedd yn drech na (overrides) y ddyletswydd i ddatgelu.

C. Nac oes, gan fod rhaid cadw gwybodaeth a geir gan gleientiaid yn gyfrinachol oni bai bod y gyfraith yn mynnu neu'n caniatáu datgeliad (disclosure) neu os bydd y cleient yn caniatáu hynny.

D. Oes, gan fod yr wybodaeth yn berthnasol i fater y cleient.

E. Oes, gan fod y ddyletswydd i ddatgelu yn drech na (overrides) y ddyletswydd cyfrinachedd.

**Cwestiwn 38**

Mae dyn yn cael ei gyflogi gan gwmni toi (roofing) i drwsio toeau. Mae'r rôl yn golygu bod angen iddo wisgo menig arbennig er mwyn amddiffyn ei ddwylo pan fydd yn trin teils to. Wrth sefyll ar sgaffaldiau, a godwyd yn esgeulus gan y cwmni toi, mae'n disgyn oddi arnynt ac yn dioddef anaf difrifol i'w ben, ac mae'n dwyn hawliad. Bu'n ddiofal (careless) drwy beidio â gwisgo'r menig bryd hynny.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r sefyllfa orau o ran gallu'r cwmni i honni esgeuluster cyfrannol (contributory negligence) y töwr?**

A. Ni all y cwmni honni esgeuluster cyfrannol oherwydd nid diofalwch y töwr a oedd wedi achosi na chyfrannu at yr anaf.

B. Ni all y cwmni honni esgeuluster cyfrannol gan nad oedd dyletswydd gofal ar y töwr tuag at y cwmni.

C. Gall y cwmni honni esgeuluster cyfrannol gan fod diofalwch y töwr wedi achosi neu gyfrannu at yr anaf.

D. Gall y cwmni honni esgeuluster cyfrannol gan fod diofalwch y töwr wedi cynyddu'n sylweddol y risg o anaf.

E. Gall y cwmni honni esgeuluster cyfrannol gan fod dyletswydd gofal ar y töwr tuag at y cwmni.

**Cwestiwn 39**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran cleient sy'n codi arian sydd wedi'i sicrhau yn erbyn ei gartref er mwyn ariannu ei fusnes newydd. Bydd y cyfreithiwr yn rhoi cyngor ac yn paratoi'r holl ddogfennau angenrheidiol mewn perthynas â'r morgais.

Mae'r cleient yn gofyn i'r cyfreithiwr egluro'r prif wahaniaethau rhwng morgais ad-dalu a morgais gwaddol (endowment). Nid yw'r cyfreithiwr na'i gwmni wedi cael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gyflawni gweithgaredd a reoleiddir.

**A oes modd i'r cyfreithiwr roi'r esboniad y gofynnir amdano o ran y mathau o forgeisi?**

A. Oes, gan fod cyngor o'r fath yn rhan angenrheidiol o ddarparu ei wasanaethau cyfreithiol.

B. Oes, gan ei fod yn ddarostyngedig i Reolau (Cwmpas) Gwasanaethau Ariannol Cyfreithwyr (Solicitors' Financial Services (Scope) Rules) ac felly mae'n dod o dan esemptiad (exemption) rhag Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000.

C. Oes, gan fod darparu cyngor cyffredinol yn syrthio'r tu allan i gwmpas Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000.

D. Nac oes, gan nad yw cyngor o'r fath yn dod o dan esemptiad (exemption) rhag Deddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000.

E. Nac oes, gan nad yw'r cyfreithiwr wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i roi cyngor mewn perthynas â'r naill fath o forgais na'r llall.

**Cwestiwn 40**

Mae llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Seneddol (‘y Bil’) i ddiddymu (repeal) statud y DU. Mae’r llywodraeth yn gallu ennill mwyafrif yn Nhŷ’r Cyffredin, ond mae’r Bil yn cael ei wrthwynebu yn Nhŷ’r Arglwyddi. Rhoddir Deddfau’r Senedd 1911 a 1949 ar waith fel bod y Bil yn dod yn gyfraith.

**Pa gamau pellach y mae angen eu cymryd er mwyn i’r Bil ddod yn gyfraith?**

A. Bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer y Bil yn Nhŷ’r Cyffredin, a derbyn y Cydsyniad Brenhinol (Royal Assent).

B. Bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer y Bil yn Nhŷ’r Cyffredin a Thŷ’r Arglwyddi, a derbyn y Cydsyniad Brenhinol (Royal Assent).

C. Bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer y Bil yn Nhŷ’r Cyffredin ac mewn refferendwm y DU.

D. Bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer y Bil yn Nhŷ’r Cyffredin, Tŷ’r Arglwyddi, ac mewn refferendwm y DU, a derbyn y Cydsyniad Brenhinol (Royal Assent).

E. Bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer y Bil yn Nhŷ’r Cyffredin, Tŷ’r Arglwyddi ac mewn refferendwm y DU.

**Cwestiwn 41**

Roedd dyn a menyw, nad oedd wedi cwrdd â'i gilydd erioed o'r blaen, mewn pwll nofio. Roedd y dyn yn cael gwers gan hyfforddwr cymwysedig (qualified) ond oherwydd esgeuluster (negligence) yr hyfforddwr aeth y dyn i drafferthion ym mhen dwfn y pwll a boddi. Gwelodd y fenyw'r holl beth, a datblygodd niwrosis trawmatig o ganlyniad.

**A oes modd i'r fenyw adfer iawndal (damages) yn erbyn yr hyfforddwr am y niwrosis trawmatig?**

A. Oes, gan fod yr hyfforddwr wedi torri'r ddyletswydd gofal a oedd ganddo tuag at y dyn, ac mae ei esgeuluster wedi achosi colled i'r fenyw.

B. Oes, gan fod yr hyfforddwr wedi torri'r ddyletswydd gofal a oedd ganddo tuag at y fenyw, ac mae ei esgeuluster wedi achosi colled iddi.

C. Oes, gan fod y fenyw'n dioddef o gyflwr sydd wedi cael ei gydnabod yn feddygol.

D. Nac oes, oherwydd nid oedd gan yr hyfforddwr ddyletswydd gofal tuag at y fenyw.

E. Nac oes, gan fod colled y fenyw yn rhy bellennig (remote).

**Cwestiwn 42**

Mae cwmni cyfyngedig cyhoeddus (PLC) mawr yn lesio peiriant gwerthu (vending machine) i ysgol bentref fach. Nid yw'r ysgol wedi talu swm o £300 sy'n ddyledus o dan gytundeb y les ar gyfer y peiriant. Mae'r PLC wedi cychwyn hawliad yn erbyn yr ysgol yn y Llys Sirol.

Mae'r ysgol yn amddiffyn yr hawliad ar y sail nad yw symiau'n ddyledus gan nad yw'r peiriant gwerthu'n gweithio mwyach. Mae'r PLC wedi cyfarwyddo ei gyfreithiwr i lunio rhestr o ddogfennau sy'n cynnwys 267 o dudalennau o negeseuon e-bost ac i geisio tystiolaeth arbenigol ar beiriannau gwerthu gan ddau arbenigwr gwahanol.

**A yw'r cyfarwyddiadau hyn yn debygol o fod yn gyson â phrif amcan (overriding objective) y Rheolau Trefniadaeth Sifil (Civil Procedure Rules)?**

A. Nac ydyn, gan fod y prif amcan yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r partïon helpu'r llys i ddelio ag achosion mewn modd cyfiawn ac am gost gymesur (proportionate).

B. Nac ydyn, gan fod y prif amcan yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r partïon helpu'r llys i ddelio ag achosion yn gyflym.

C. Ydyn, gan fod y prif amcan yn berthnasol i'r llysoedd yn unig, ac nid i'r partïon.

D. Ydyn, gan fod y prif amcan yn mynnu cymesuredd (proportionality) dim ond o ran rhinwedd gymharol (relative merit) yr hawliad, nid o ran gwerth cymharol yr hawliad.

E. Ydyn, gan fod y prif amcan yn berthnasol i ymddygiad cyn-gweithredu (pre-action) yn unig.

**Cwestiwn 43**

Mae dyledwr i fod i dalu dyled o £5,000 yn ôl i gredydwr ansicredig (unsecured) heddiw. Mae'r dyledwr yn dweud wrth y credydwr mai dim ond swm o £4,000 y gall ei ad-dalu, ac mae'n gofyn i'r credydwr gytuno mai hwn yw'r setliad llawn a therfynol ar gyfer y swm cyfan. Gan ei fod e'n poeni bod y dyledwr, sydd â chredydwyr ansicredig eraill hefyd, ar fin cael ei wneud yn fethdalwr (bankrupt), mae'r credydwr yn cytuno.

**A oes modd i'r credydwr orfodi'r dyledwr i dalu'r £1,000 sy'n weddill?**

A. Oes, gan fod y cytundeb i dderbyn llai na'r swm llawn wedi'i wneud o dan orfodaeth (under duress).

B. Oes, gan nad yw'r dyledwr wedi rhoi unrhyw gydnabyddiaeth (consideration) yn gyfnewid am (in return for) y cytundeb i dderbyn llai na'r swm llawn.

C. Nac oes, gan fod y credydwr wedi ildio'i hawl i hawlio'r swm llawn.

D. Nac oes, gan fod y credydwr wedi cael budd cyfreithiol drwy dderbyn £4,000 yn hytrach na dim byd.

E. Nac oes, gan fod y credydwr wedi cael budd ymarferol drwy dderbyn £4,000 yn hytrach na dim byd.

**Cwestiwn 44**

Mae gyrrwr yn gyrru’n esgeulus ac o ganlyniad mae’n cael damwain. Mae teithiwr yn ei gar yn cael anaf yn y ddamwain. Roedd eisoes gan y teithiwr gyflwr difrifol i’w gefn, ac roedd y gyrrwr yn ymwybodol o hynny. Mae’r cyflwr hwnnw’n gwaethygu o ganlyniad i’r ddamwain ac mae’r teithiwr yn cael ei barlysu.

**Pa un o’r datganiadau canlynol yw’r disgrifiad gorau o’r sefyllfa o allu’r teithiwr i hawlio iawndal (damages) gan y gyrrwr am ei fod wedi ei barlysu?**

A. Gall y teithiwr hawlio iawndal gan y gyrrwr am ei fod wedi ei barlysu, gan fod parlys o fewn ystyriaeth y partïon fel posibilrwydd ar adeg y ddamwain.

B. Gall y teithiwr hawlio iawndal gan y gyrrwr am ei fod wedi ei barlysu, gan fod yn rhaid i’r gyrrwr gymryd y teithiwr fel y mae ef ar y pryd.

C. Ni all y teithiwr hawlio iawndal gan y gyrrwr am ei fod wedi ei barlysu, gan na ellid yn rhesymol ragweld y byddai’n cael ei barlysu o ganlyniad i’r ddamwain.

D. Ni all y teithiwr hawlio iawndal gan y gyrrwr am ei fod wedi ei barlysu gan na ddeilliodd y parlys o’r ddamwain yn nhrefn arferol pethau (in the normal course of events).

E. Ni all y teithiwr hawlio iawndal gan y gyrrwr am ei fod wedi ei barlysu gan fod y teithiwr yn rhannol gyfrifol am y parlys oherwydd bod y cyflwr arno’n barod.

**Cwestiwn 45**

Mae menyw yn berchen ar gyfrannau (shares) mewn cwmni cyfyngedig preifat. Nid yw'r cyfrannau mewn ISA (Cyfrif Cynilo Unigol). Yn ystod blwyddyn dreth 2024/25 mae'r fenyw'n cael difidend o £5,000. Ei hunig ffynhonnell incwm arall yw ei chyflog. Ei hincwm trethadwy, gan gynnwys y difidend, yw £41,000.

Yn 2024/25, £12,570 yw'r lwfans personol, £12,571-£50,270 yw'r band treth cyfradd sylfaenol (basic tax rate), a lwfans difidendau yw £500.

**Faint o Dreth Incwm, os o gwbl, ddylai'r fenyw ei thalu ar y difidend?**

A. Dim, gan fod y difidend wedi cael ei dalu gan gwmni cyfyngedig preifat sy'n talu Treth Gorfforaeth (Corporation Tax) ar ei elw dosbarthadwy (distributable profits) ac mae hynny'n bodloni rhwymedigaeth (liability) y fenyw o safbwynt Treth Incwm.

B. Dim, gan nad yw ei hincwm trethadwy, gan gynnwys y difidend, yn uwch na'r trothwy uchaf ar gyfer treth ar y gyfradd sylfaenol.

C. Dylai hi dalu Treth Incwm ar gyfradd sylfaenol Treth Incwm ar y difidend cyfan gan fod hyn yn mynd y tu hwnt i'w lwfans difidendau blynyddol.

D. Dylai hi dalu Treth Incwm ar y gyfradd treth briodol ar gyfer difidendau ar y gyfran o'r difidend sy'n uwch na'i lwfans difidendau blynyddol.

E. Dylai hi dalu Treth Incwm ar gyfradd ychwanegol Treth Incwm ar y gyfran o'r difidend sy'n uwch na'i lwfans difidendau blynyddol.

**Cwestiwn 46**

Mae cyfreithiwr yn cael ei gyflogi gan gwmni o gyfreithwyr sy'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) ac sy'n 'gwmni proffesiynol eithriedig (excluded)' at ddibenion gwasanaethau ariannol. Nid yw'r cwmni wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r cyfreithiwr yn gweithredu ar ran menyw sy'n ystyried prynu un o ddwy lain (plot) gyfagos o dir fferm.

Hoffai'r fenyw gael cyngor ar ba un o'r ddwy lain y dylai ei phrynu ac mae'r cyfreithiwr yn cyfeirio'r fenyw at syrfëwr siartredig sydd 'ynghlwm' wrth asiant dir benodol. Mae'r fenyw yn dewis, ac yn penderfynu bwrw ymlaen â phrynu, un llain o dir ar sail y cyngor y mae hi'n ei gael gan y syrfëwr siartredig. Nid yw'r cyfreithiwr na'r cwmni o gyfreithwyr yn cael comisiwn na buddiant arall yn sgil cyfeirio'r fenyw at y syrfëwr. Mae'r cwmni a'r cyfreithiwr yn cydymffurfio bob amser â Rheolau Gwasanaethau Ariannol (Ymddygiad Busnes) SRA, a Rheolau Gwasanaethau Ariannol (Cwmpas) SRA.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw'r cyfreithiwr yn torri'r gwaharddiad cyffredinol o dan a.19 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000?**

A. Nid yw'r llain o dir yn fuddsoddiad penodedig (specified).

B. Nid yw'r cyfreithiwr yn gweithredu yn unol â threfn arferol busnes.

C. Gall y cyfreithiwr fanteisio ar eithriad trydydd parti awdurdodedig.

D. Gall y cyfreithiwr fanteisio ar yr eithriad cyflwyno.

E. Mae cyngor y cyfreithiwr wedi'i esemptio (exempt) gan fod y cwmni yn cael ei reoleiddio gan SRA.

**Cwestiwn 47**

Mae peintiwr yn mynd i siop, sydd wedi bod yn masnachu ers nifer o flynyddoedd, am y tro cyntaf. Mae'r peintiwr yn llogi set o ysgolion ac yn arwyddo bonyn (slip) casglu sy'n nodi'r cyfnod a'r costau y cytunwyd arnynt. Ar ôl talu ac wrth iddo adael y siop mae'n gweld hysbysiad ar wal y siop ('yr Hysbysiad') sy'n nodi:

"Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd am gynnyrch diffygiol a logir."

**A yw'r Hysbysiad yn rhan o'r contract rhwng y peintiwr a'r siop ar gyfer llogi'r ysgolion?**

A. Nac ydy, gan nad yw cynnwys yr Hysbysiad wedi'i ymgorffori yn y contract.

B. Ydy, gan fod yr Hysbysiad yn hysbysiad rhesymol o'i delerau.

C. Ydy, gan fod y peintiwr yn cytuno i delerau'r Hysbysiad drwy lofnodi'r bonyn casglu.

D. Ydy. Gan fod y siop yn masnachu ers nifer o flynyddoedd, bydd y siop yn gallu profi trefn gyson o ddelio (consistent course of dealing).

E. Nac ydy, gan nad yw'r Hysbysiad yn ddim byd ond cynrychiolaeth (representation).

**Cwestiwn 48**

Roedd pedwar syrfëwr siartredig wedi sefydlu busnes fel Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (yr 'LLP'). Mae dau ohonynt yn aelodau dynodedig (designated members) ac mae dau yn aelodau cyffredin o'r LLP ac mae pob un yn gweithio'n llawn amser. Mae'r aelodau i gyd yn cyfarfod yn ffurfiol unwaith y mis i drafod elw a cholled, llif arian a rhagolygon ariannol. Mae'r wybodaeth ariannol hon wedi nodi nad yw'r LLP yn gallu talu ei dyledion ar gyfer y 12 mis diwethaf. Mae'r LLP wedi parhau mewn busnes, ac mae'r aelodau wedi trafod ffyrdd o gyfyngu ar gostau. O ganlyniad, maent wedi gwneud gostyngiadau sylweddol o ran gwariant y swyddfa. Mewn un cyfarfod ('y Cyfarfod') ychydig fisoedd yn ôl, awgrymodd un o'r aelodau cyffredin ('yr Aelod Cyffredin') y dylent gael cyngor ariannol a/neu gyfreithiol ar eu sefyllfa. Gwrthodwyd yr awgrym hwn ar y sail y byddai'n rhy ddrud.

Caiff datodwr (liquidator) ei benodi i ddirwyn yr LLP i ben yn sgil ansolfedd (insolvent winding up). Mae'r datodwr o'r farn ei bod hi'n glir nad oedd unrhyw obaith rhesymol ar ddyddiad y Cyfarfod y byddai'r LLP yn osgoi diddymiad ansolfent (insolvent liquidation) ac mae'n ystyried a ddylid cyflwyno hawliad am gamfasnachu (wrongful trading) yn erbyn yr holl aelodau.

**Pa un o'r canlynol y mae'n rhaid i'r Aelod Cyffredin ei ddangos i sefydlu amddiffyniad yn erbyn hawliad y datodwr?**

A. Ei fod ef wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau gwariant yr LLP.

B. Gan nad yw ef yn aelod dynodedig, mae ganddo atebolrwydd cyfyngedig (limited liability) ac ni ellir ei gwneud hi'n ofynnol iddo gyfrannu at asedau'r LLP.

C. Ei fod ef wedi cymryd pob cam i leihau'r golled bosibl i gredydwyr yr LLP.

D. Ei bod hi'n rhesymol bod yr LLP yn parhau i fasnachu gan ddisgwyl y byddai busnes yr LLP yn gwella.

E. Gan nad yw'n aelod dynodedig, nid oedd ganddo fynediad at yr holl wybodaeth angenrheidiol i benderfynu a oedd y busnes yn ansolfent.

**Cwestiwn 49**

Er mwyn bwrw ymlaen ag achos gerbron y llys, mae angen dehongli adran mewn statud yn gywir ac mae'r barnwr yn ystyried ei opsiynau o dan reolau dehongli statudol (rules of statutory interpretation). Mae'n penderfynu defnyddio'r rheol drygau (mischief rule).

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut y bydd y barnwr yn defnyddio'r rheol drygau wrth ddehongli'r statud?**

A. Bydd yn ystyried y diffyg mewn cyfraith gyffredin a achosodd i'r Senedd berthnasol basio'r statud.

B. Bydd yn dewis dehongliad o'r statud sy'n mynd i'r afael ag unrhyw abswrdedd cychwynnol.

C. Bydd yn cyfeirio at y cofnod a gadwodd y drafftwyr seneddol a fu'n gweithio ar y statud.

D. Bydd yn defnyddio ystyr cyffredin a gramadegol y geiriau yn y statud.

E. Bydd yn defnyddio gwerslyfr academaidd fel cymorth allanol wrth ddehongli.

**Cwestiwn 50**

Wrth yrru ei char ar hyd ffordd, mae menyw'n gweld bod golau rhybuddio (warning light) yn nodi bod olew'r injan yn isel. Mae'r fenyw yn stopio'r car wrth ochr y ffordd ac yn cynnau goleuadau rhybudd (hazard lights) y car.

Mae gyrrwr sy'n pasio ('y Modurwr') yn gweld car y fenyw ac yn stopio i gynnig ei gymorth. Mae gan y Modurwr olew injan sbâr ac mae'r fenyw yn cytuno y dylai arllwys rhywfaint ohono i injan car y fenyw.

Mae'r golau rhybuddio olew yn diffodd ac mae'r fenyw yn tybio felly bod y car wedi'i drwsio. Mae'n dechrau gyrru eto ond o fewn 20 munud mae injan ei char yn mynd yn sownd, gan achosi difrod sylweddol i'r car.

Mae garej yn trwsio car y fenyw. Dywed wrthi fod y Modurwr wedi defnyddio'r math anghywir o olew injan ac mae hyn wedi achosi'r difrod i'r injan.

Mae'r fenyw yn dymuno dwyn hawliad mewn esgeuluster (claim in negligence) yn erbyn y Modurwr. Mae hi'n gofyn am gyngor gan gyfreithiwr sy'n credu nad oes cynseiliau tebyg nac achosion tebyg i sefydlu a oes dyletswydd gofal ar y Modurwr tuag at y fenyw. Mae cyngor cyfreithiol y cyfreithiwr ynglŷn â'r hyn y bydd y llys yn ei ystyried yn seiliedig ar y gred hon.

**Pa gyngor cyfreithiol y bydd y cyfreithiwr yn ei roi ynglŷn â'r hyn y bydd y llys yn ei ystyried wrth benderfynu a oes dyletswydd gofal ar y Modurwr mewn esgeuluster tuag at y fenyw?**

A. Dim ond gallu'r Modurwr i fod wedi rhagweld yn rhesymol y byddai difrod yn cael ei achosi i eiddo'r fenyw.

B. Dim ond p'un a oes gan y Modurwr berthynas o agosrwydd (relationship of proximity) â'r fenyw, a ph'un a yw'n deg, cyfiawn a rhesymol gosod dyletswydd arno.

C. Dim ond gallu'r Modurwr i fod wedi rhagweld yn rhesymol y byddai difrod yn cael ei achosi i eiddo'r fenyw ac a oes ganddo berthynas o agosrwydd (relationship of proximity) â hi.

D. Gallu'r Modurwr i fod wedi rhagweld yn rhesymol y byddai difrod yn cael ei achosi i eiddo'r fenyw, p'un oes ganddo berthynas o agosrwydd (relationship of proximity) â hi, a ph'un a yw'n deg, cyfiawn a rhesymol gosod dyletswydd arno.

E. Dim ond p'un a yw'n deg, cyfiawn a rhesymol gosod dyletswydd ar y Modurwr tuag at y fenyw.

**Cwestiwn 51**

Mae cwmni cyfyngedig ('yr Hawlydd') yn cyflenwi stondinau beiciau sy'n costio £15,000 gan gynnwys TAW i unig fasnachwr (sole trader) ('y Diffynnydd') sy'n gwerthu beiciau trydan. Mae'r Diffynnydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Mae'r Diffynnydd yn methu talu'r swm sy'n ddyledus.

Mae'r Hawlydd yn cyfarwyddo cyfreithiwr sy'n cael dyfarniad ariannol yn y Llys Sirol am y swm llawn, a llog. Nid yw'r Diffynnydd yn talu'r ddyled o fewn 14 diwrnod fel y mae'r llys yn ei orchymyn.

Mae'r Hawlydd yn hysbysu'r cyfreithiwr yn gywir bod y Diffynnydd yn rhentu fflat drud iawn, mae ei busnes yn gwneud yn dda ac mae hi hefyd yn lesio uned ddiwydiannol lle mae'n gwerthu ac yn storio ei stoc i gyd. Mae hi hefyd yn talu arian bob mis i gyfrif banc sydd yn ei henw hi ac enw ei phriod (spouse) sydd â balans cyfredol o £30,000.

**Beth yw'r ffordd orau o orfodi'r dyfarniad i adennill rhywfaint o ddyled y dyfarniad neu'r ddyled i gyd?**

A. Gwarant rheolaeth (warrant of control).

B. Gorchymyn atafaelu enillion (attachment of earnings order).

C. Gorchymyn arwystlo (charging order) dros y fflat.

D. Gorchymyn dyled trydydd parti.

E. Gwrit rheolaeth (writ of control).

**Cwestiwn 52**

Mae cyfreithiwr sy'n gweithio mewn cwmni mawr yn dod yn ymwybodol bod cleient, y mae'n ei gynrychioli wrth brynu eiddo, yn gysylltiedig â gwyngalchu arian (money laundering).

Mae hi'n gwneud datgeliad i'r swyddog enwebedig (nominated) yn y cwmni o gyfreithwyr. Mae'r swyddog enwebedig yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gyda'r datgeliad ac yn cytuno bod tystiolaeth o wyngalchu arian.

**I bwy y mae'n rhaid i'r swyddog enwebedig adrodd tystiolaeth o wyngalchu arian?**

A. Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

B. Cymdeithas y Gyfraith.

C. Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

D. Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

E. Y cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran gwerthwr yr eiddo.

**Cwestiwn 53**

Mae dyn yn ymweld â chyfreithiwr. Mae'r dyn yn hysbysu'r cyfreithiwr ei fod yn gyfarwyddwr cwmni ('y Cwmni') lle mae'n cael ei gyflogi hefyd. Mae'n egluro bod y Cwmni yn eiddo llwyr i gwmni o'r Unol Daleithiau ('y Rhiant'), a bod holl gyfarwyddwyr eraill y Cwmni yn swyddogion y Rhiant ac yn byw yn UDA. Mae'r dyn yn byw yn Lloegr.

Mae'r dyn yn egluro bod y Rhiant wedi gofyn i'r Cwmni brynu eiddo penodol yn Llundain ('yr Eiddo') y bydd y Cwmni yn gweithredu ohono er mwyn ehangu ei fusnes presennol.

Mae'r dyn yn egluro ymhellach fod bwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni ('y Bwrdd') wedi cyfarfod i ystyried cais y Rhiant ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen â phrynu'r Eiddo gan eu bod wedi penderfynu y byddai pryniant o'r fath yn hyrwyddo llwyddiant y Cwmni. Gofynnir i'r cyfreithiwr roi cyngor ar brynu'r Eiddo.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n rhoi'r eglurhad gorau o pwy yw cleient y cyfreithiwr?**

A. Y Rhiant, gan fod y Cwmni o dan berchnogaeth lwyr iddo.

B. Y dyn, gan mai ef yw cyfarwyddwr y Cwmni sy'n byw yn Lloegr.

C. Y Cwmni, gan mai'r Cwmni fydd yn prynu'r Eiddo.

D. Y Rhiant, gan mai'r Rhiant sydd wedi gofyn i'r Cwmni brynu'r Eiddo.

E. Y Bwrdd, gan mai'r Bwrdd sydd wedi penderfynu bwrw ymlaen â phrynu'r Eiddo.

**Cwestiwn 54**

Roedd menyw yn berchen ar siop anifeiliaid anwes yr oedd hi'n ei rhedeg fel unig fasnachwr (sole trader). Penderfynodd werthu'r siop anifeiliaid anwes a dod yn bartner mewn salon trin cŵn sydd wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd. Pan ymunodd â'r bartneriaeth, cymerodd fenthyciad o £10,000 ar gyfradd llog flynyddol o 10% i brynu ei chyfran hi o'r bartneriaeth. Nid yw hi wedi talu dim o'r benthyciad yn ôl hyd yma. Ym mlwyddyn dreth 2024/25, cyfran y fenyw o elw'r bartneriaeth oedd £38,000.

Cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i'r fenyw ddod o hyd i brynwr i'r siop anifeiliaid anwes ond cwblhaodd y gwerthiant ar 6 Ebrill 2024 gan wneud elw o £10,000 ar y gwerthiant.

Yn 2024/25 y lwfans personol yw £12,570 a chyfradd sylfaenol y Dreth Incwm yw 20%. Y band treth cyfradd sylfaenol yw £0 - £37,700.

**Beth yw atebolrwydd y fenyw o safbwynt treth Incwm yn y flwyddyn dreth 2024/25?**

A. £4,886

B. £5,086

C. £7,086

D. £6,886

E. £5,286

**Cwestiwn 55**

Mae cwmni recriwtio yn dymuno prynu tegell bach gan gwmni manwerthu (‘y Manwerthwr’) at ddefnydd ei weithwyr.

Pan fo rheolwr swyddfa’r cwmni recriwtio yn ymweld â safle’r Manwerthwr am y tro cyntaf, nid yw’r tegell mewn stoc. Felly, mae’r Manwerthwr yn archebu un oddi wrth y cyfanwerthwyr (wholesalers) ac mae rheolwr y swyddfa yn mynd yn ôl at y Manwerthwr yn ddiweddarach i’w gasglu.

Ar ôl cael ei ddefnyddio ddwywaith mae’r tegell yn stopio gweithio.

**Pa hawliad sydd gan y cwmni recriwtio?**

A. Nid yw’r tegell o ansawdd boddhaol o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr (Consumer Rights Act) 2015.

B. Nid yw’r tegell yn addas at ddiben penodol o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr (Consumer Rights Act) 2015.

C. Nid yw’r tegell o ansawdd boddhaol o dan Ddeddf Gwerthu Nwyddau (Sale of Goods Act) 1979.

D. Nid yw’r tegell yn addas at ddiben penodol o dan Ddeddf Cyflenwi Nwyddau (Telerau Ymhlyg) (Supply of Goods (Implied Terms) Act) 1973.

E. Nid yw’r tegell o ansawdd boddhaol o dan Ddeddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau (Supply of Goods and Services Act) 1982.

**Cwestiwn 56**

Cafodd adran o'r llywodraeth ei chreu yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol o derfysgaeth yn y DU. Mae'r gweision sifil sy'n gweithio yn yr adran newydd ('y Staff') yn rhoi sylw i ddeunydd cyfrinachol sy'n berthnasol i ddiogelwch cenedlaethol, ac maent wedi cael eu dethol o blith gweithwyr presennol y gwasanaeth sifil. Roedd yr holl Staff a gafodd eu dewis i ymuno â'r adran newydd yn aelodau presennol o undeb llafur cenedlaethol mwyaf y gwasanaeth sifil ('yr Undeb').

Wedi i'r Staff fod yn eu swyddi newydd am chwe mis, ac yn dilyn cynnydd mewn gweithredu diwydiannol gan rai undebau llafur y gwasanaeth sifil, dywedir wrth y Staff eu bod wedi cael eu gwahardd rhag bod yn aelodau o'r Undeb, gan ddechrau ar unwaith. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad â'r Staff na'r Undeb. Nid oedd yr Undeb yn rhan o'r gweithredu diwydiannol diweddar. Mae'r Staff yn dymuno dwyn hawliad o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan honni bod eu hawliau Erthygl 11 i ryddid ymgynnull a chymdeithasu (freedom of assembly and association), fel sydd wedi'u hymgorffori yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, wedi'u torri.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n cynrychioli'r cyngor gorau i'r Staff am yr amddiffyniad a gynigir gan Erthygl 11?**

A. Mae hawliau Erthygl 11 yn hawliau amodol (qualified rights) y gellir eu harfer yn amodol ar gyfyngiadau a osodir er budd diogelwch cenedlaethol.

B. Mae hawliau Erthygl 11 yn hawliau cyfyngedig (limited rights) y gellir eu harfer yn amodol ar gyfyngiadau a osodir er budd lles cymdeithasol ac economaidd y wlad.

C. Mae hawliau Erthygl 11 yn rhai absoliwt mewn perthynas â hawl yr unigolyn i ffurfio undebau llafur ac i ymuno â nhw, er mwyn diogelu eu buddiannau eu hunain.

D. Mae hawliau Erthygl 11 yn hawliau amodol (qualified rights) ac mae ymgynghori yn amod angenrheidiol wrth ystyried a yw'n gymesur cyfyngu ar yr hawl i ffurfio undebau llafur ac i ymuno â nhw.

E. Mae hawliau Erthygl 11 yn hawliau cyfyngedig (limited rights) ac nid ydynt yn amodol ar gyfyngiadau pan gânt eu harfer gan y lluoedd arfog, yr heddlu neu weinyddiaeth y wladwriaeth (administration of the state).

**Cwestiwn 57**

Mae hawlydd yn cyflwyno hawliad am dorcontract yn erbyn diffynnydd. Mae'r diffynnydd yn methu cyflwyno (serve) ei amddiffyniad o fewn y terfyn amser sy'n ofynnol ac mae'r hawlydd yn cofrestru dyfarniad trwy ddiffyg (enters judgment in default).

Mae'r diffynnydd yn gwneud cais i roi o'r neilltu (set aside) y dyfarniad trwy ddiffyg (default judgment) ac mae'r cais yn cael ei glywed yn y Llys Sirol gerbron Barnwr Rhanbarth mewn canolfan gwrandawiadau y tu allan i Lundain.

Mae'r Barnwr Rhanbarth yn gwrthod caniatáu'r cais. Mae'r diffynnydd yn cael caniatâd i apelio ac mae'n apelio yn erbyn y gorchymyn a wnaeth y Barnwr Rhanbarth.

**Pwy fydd yn clywed apêl y diffynnydd?**

A. Barnwr Uchel Lys yn yr Uchel Lys.

B. Barnwr Cylchdaith (Circuit Judge) yn y Llys Sirol.

C. Ynadon Apêl (Justices of Appeal) yn y Llys Apêl.

D. Meistr yn y Llys Sirol.

E. Barnwr Rhanbarth yn yr Uchel Lys.

**Cwestiwn 58**

Mae menyw yn berchen ar adeilad lle mae hi'n cynnal ei busnes o ddarparu cyfleusterau sba a thriniaethau harddwch i'r cyhoedd. Cafodd cwsmer ei anafu wrth ddefnyddio un o'r cawodydd yn y sba pan ddisgynnodd nifer o deils oddi ar wal y gawod ar ei thraed.

Roedd y gawod wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar gan gontractwyr annibynnol sy'n arbenigo mewn gosod cyfleusterau sba masnachol. Roeddent wedi cael eu hargymell gan syrfëwr profiadol a fu'n arolygu a chymeradwyo'r gwaith gorffenedig i'r fenyw.

Disgynnodd y teils oddi ar y wal gan fod y contractwyr annibynnol wedi defnyddio glud teils annigonol wrth osod y teils ar y wal.

**Pa un o'r canlynol sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o atebolrwydd posibl y fenyw o dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr (Occupiers' Liability Act) 1957?**

A. Nid yw hi'n atebol gan ei bod hi wedi defnyddio contractwyr cymwys a bod y gwaith wedi cael ei wirio wedi i'r teils gael eu gosod.

B. Nid yw hi'n atebol gan fod gan y contractwyr annibynnol reolaeth dros y safle pan gafodd y gwaith esgeulus ei wneud.

C. Mae hi'n atebol gan fod y cwsmer yn ymwelydd â'r adeilad.

D. Mae hi'n atebol gan fod y fenyw a'r contractwyr annibynnol ill dau yn feddianwyr.

E. Mae hi'n atebol gan fod y teils yn berygl ar y safle.

**Cwestiwn 59**

Mae paragyfreithiwr wedi ei gyflogi ers 18 mis mewn cwmni o gyfreithwyr. Ymddangosodd fel tyst mewn hawliad llwyddiannus a wnaethpwyd gan un o'i chydweithiwr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf') yn erbyn y cwmni yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae'r paragyfreithiwr a'r cydweithiwr yn parhau i weithio i'r cwmni ar ôl i'r hawliad ddod i ben.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, mae'r cwmni'n talu bonws disgresiynol i staff yn eu cyflog i ddiolch iddynt am eu gwaith caled y flwyddyn ariannol honno. Nid yw'r paragyfreithiwr na'r cydweithiwr yn derbyn bonws, yn wahanol i'r holl staff eraill. Nhw yw'r unig weithwyr sydd wedi bod yn rhan o achos y Tribiwnlys Cyflogaeth yn erbyn y cwmni. Mae'r paragyfreithiwr yn codi'r mater gyda'i rheolwr llinell ond heb lwyddiant, sy'n gwneud iddi deimlo ei bod hi'n cael ei bychanu.

Mae'r paragyfreithiwr yn gofyn am gyngor ynghylch a all ddwyn hawliad o dan y Ddeddf am y methiant i dalu'r bonws disgresiynol iddi.

**A yw'r cwmni'n debygol o fod wedi torri ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf drwy beidio â thalu'r bonws disgresiynol i'r paragyfreithiwr?**

A. Nac ydy, gan fod y bonws yn ôl disgresiwn y cwmni yn unig ac nid yw'n un o'r telerau cytundebol.

B. Ydy. Mae hawliad tebygol o wahaniaethu (discrimination) uniongyrchol.

C. Ydy. Mae hawliad tebygol o erledigaeth (victimisation).

D. Ydy. Mae hawliad tebygol o aflonyddu (harassment).

E. Nac ydy, gan nad yw'r paragyfreithiwr wedi gweithio yn y cwmni ers dwy flynedd.

**Cwestiwn 60**

Roedd tri chyfreithiwr wedi sefydlu partneriaeth chwe mis yn ôl. Fe wnaethant rannu elw yn gyfartal a chynnal eu busnes o swyddfa a oedd yn eiddo i un o'r partneriaid yr oedd wedi ei brynu saith mis yn ôl. Mae'r partner a oedd yn berchen ar y swyddfa bellach wedi marw. Ar ddyddiad ei farwolaeth, roedd gwerth busnes y bartneriaeth yn £900,000 ac roedd gwerth y swyddfa yn £700,000.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau i ba raddau mae Rhyddhad Ardrethi (Business Relief - BR) ar gael ar Dreth Etifeddiant mewn perthynas â buddiant, sydd gan y partner a fu farw, ym musnes y bartneriaeth ac yn y swyddfa?**

A. Bydd y buddiant ym musnes y bartneriaeth a'r swyddfa yn gymwys ar gyfer BR ar gyfradd o 100%.

B. Bydd y buddiant ym musnes y bartneriaeth yn gymwys ar gyfer BR ar gyfradd o 100% a bydd y swyddfa yn gymwys ar gyfer BR ar gyfradd o 50%.

C. Bydd y buddiant ym musnes y bartneriaeth yn gymwys ar gyfer BR ar gyfradd o 100% ac ni fydd y swyddfa yn gymwys ar gyfer BR.

D. Ni fydd y buddiant ym musnes y bartneriaeth yn gymwys ar gyfer BR a bydd y swyddfa yn gymwys ar gyfer BR ar gyfradd o 50%.

E. Ni fydd y buddiant ym musnes y bartneriaeth na'r swyddfa yn gymwys ar gyfer BR.

**Cwestiwn 61**

Mae cwsmer yn prynu teledu mewn siop ar 24 Rhagfyr. Anrheg yw hon i'w ferch. Wrth brynu'r teledu, nid yw'n dweud mai anrheg i rywun arall ydyw.

Pan mae ei ferch yn agor y bocs mae hi'n darganfod bod y teledu yn ddiffygiol. Mae hi'n teithio i'r siop ar 26 Rhagfyr ac yn gofyn am deledu arall neu ad-daliad. Mae'r siop yn gwrthod.

**Pa gyngor y dylid ei roi i'r ferch?**

A. Mae gan y ferch hawliau o dan y contract gan ei bod hi wedi dioddef anfantais am ei fod wedi teithio i'r siop.

B. Mae gan y ferch hawliau o dan y contract oherwydd, yn sgil prawf gwrthrychol (objective test), roedd y teledu yn debygol o fod wedi cael ei brynu fel anrheg i drydydd parti.

C. Mae gan y ferch hawl o dan y contract i gael teledu newydd, yn lle'r llall, yn unig.

D. Nid oes gan y ferch unrhyw hawliau o dan y contract gan nad oedd hi'n barti iddo.

E. Nid oes gan y ferch unrhyw hawliau o dan y contract gan mai cytundeb domestig yw hwn rhwng aelodau o deulu.

**Cwestiwn 62**

Yn ystod ymweliad â'i hewythr, mae menyw'n cael ei brathu gan ei gi ef. Mae ei bys wedi ei dorri i ffwrdd yn y digwyddiad ac mae angen llawdriniaeth arni i ailgysylltu ei bys. Mae meddyg yn ei chynghori na fydd hi'n bosibl gwybod a yw'r llawdriniaeth wedi bod yn llwyddiannus am chwe mis a'i bod hi'n bosibl y bydd angen llawdriniaeth bellach. Bydd angen ffisiotherapi arni hefyd.

Mae'r fenyw'n ystyried yn ofalus am hawlio digolledïad (compensation) gan ei hewythr. Mae hi'n dod i'r casgliad y bydd hi'n cyflwyno hawliad.

Mae'r ewythr yn dymuno osgoi costau ac oedi'r achos llys a byddai'n well ganddo fod yr hawliad yn cael ei ddatrys nawr trwy ddull amgen o ddatrys anghydfod (alternative dispute resolution). Mae'r ewythr yn cyflwyno ffrind agos sydd â chymwysterau addas i gynnal proses gyfryngu (mediation). Mae'r ewythr yn dweud bod gan ei ffrind gymwysterau rhagorol ac na fyddant yn gallu cael hyd i neb i fynegi barn well. Mae'r fenyw yn anghyfforddus ynglŷn â'r penodiad arfaethedig ac mae hi'n poeni na fydd hi'n cael digolledïad llawn os na fydd hi'n cyflwyno achos llys ffurfiol. Mae'r fenyw yn penderfynu nad yw proses gyfryngu yn briodol ac mae hi'n dymuno cyfarwyddo cyfreithiwr i gyflwyno achos (issue proceedings).

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n egluro orau pam y dylai'r fenyw wrthod cymryd rhan mewn dull amgen o ddatrys anghydfod, fel mae ei hewythr yn ei gynnig?**

A. Ni fydd y cyfryngwr yn wirioneddol annibynnol gan ei fod yn ffrind i'r ewythr ac wedi cael ei ddewis ganddo.

B. Bydd yn rhaid i'r fenyw fod heb gynrychiolaeth yn y broses gyfryngu ac felly ni fydd ganddi'r fantais o arbenigedd cyfreithiol wrth gyflwyno ei hachos.

C. Mae awdurdod gan y cyfryngwr i osod setliad ar y fenyw ac mae hi'n poeni na fydd hi'n derbyn digolledïad llawn.

D. Bydd gofyn i'r fenyw dalu ei chostau cyfryngu ei hun, ond bydd hi'n gallu adennill ei chostau i gyd os bydd hi'n llwyddiannus mewn achos llys.

E. Mae costau'r broses gyfryngu yn debygol o fod yn anghymesur (disproportionate) o uchel o'u cymharu â chost datrys ei hawliad drwy'r llys.

**Cwestiwn 63**

Mae cyngor lleol yn cyflwyno gwaharddiad ar blant oed ysgol rhag mynd i mewn i gaffis, canolfannau siopa a sinemâu rhwng 8am a 6pm ar ddiwrnodau ysgol. Nod y penderfyniad hwn yw lleihau lefelau uchel o driwantiaeth mewn ysgolion canol-y-ddinas. Fe'i gwneir o dan ddeddfwriaeth sy'n rhoi pwerau disgresiynol llawn i awdurdodau lleol gyflwyno mesurau sydd â'r nod o wella cyrhaeddiad addysgol ac fe'i cyflwynir heb ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r penderfyniad hwn yn peri gofid i fusnesau lleol ac maen nhw'n gofyn am gyngor cyfreithiol. Mae llawer ohonynt yn dibynnu ar fasnach gan blant ysgol lleol, a chan fod gwersi ysgol yn dod i ben erbyn 3.30pm ni allant weld sut y gellir cyfiawnhau'r gwaharddiad tan 6pm. Nid oes unrhyw faterion hawliau dynol yn y fantol.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n rhoi'r crynodeb gorau ar gyfer y sail y gellid ei defnyddio i herio'r penderfyniad hwn trwy adolygiad barnwrol (judicial review)?**

A. Os nad yw'r penderfyniad yn rhoi digon o bwys i fuddiannau'r busnesau lleol.

B. Os nad yw'r penderfyniad yn arwain at welliant amlwg mewn cyrhaeddiad addysgol y plant ysgol lleol.

C. Os nad y penderfyniad hwn yw'r un mwyaf cost-effeithiol dan yr amgylchiadau.

D. Os yw'r penderfyniad yn mynd yn sylweddol y tu hwnt i'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud mewn mannau eraill i fynd i'r afael â'r un mater.

E. Os yw'r penderfyniad mor warthus yn yr ystyr ei fod yn mynd yn groes i resymeg fel na allai unrhyw berson synhwyrol fod wedi ei wneud.

**Cwestiwn 64**

I ariannu hawliad o dorcontract, mae hawlydd yn ymrwymo i gytundeb ar sail iawndal (damages-based agreement) gyda chwmni o gyfreithwyr, ar gyfradd o 20%. Mae cyfreithwyr yr hawlydd yn talu alldaliadau (disbursements) o £5,000. Mae'r achos wedi cael ei setlo. Caiff gorchymyn setlo ei lunio lle mae'r diffynnydd yn cytuno i dalu swm o £150,000 yn iawndal i'r hawlydd ac mae'n cytuno i dalu costau cyfreithwyr yr hawlydd sef £10,000 ynghyd ag alldaliadau o £5,000. Mae'r diffynnydd yn talu'r symiau sy'n ddyledus i gyfreithwyr yr hawlydd.

Mae cyfreithwyr yr hawlydd yn cyfrifo'r swm y gallant ei ddidynnu (deduct) o dan y cytundeb ar sail iawndal. Bydd y cyfreithwyr yn trosglwyddo'r balans i'r hawlydd.

**Pa swm y bydd yr hawlydd yn ei dderbyn gan ei gyfreithwyr?**

A. £130,000

B. £120,000

C. £115,000

D. £148,000

E. £117,000

**Cwestiwn 65**

Mae dyn sy'n oedolyn yn cael ei ladd mewn damwain car. Mae menyw yn atebol am esgeuluster am achosi'r ddamwain a marwolaeth y dyn.

Roedd y dyn yn briod ar adeg ei farwolaeth ac mae'n cael ei oroesi gan (survived by) ei wraig a'u mab blwydd oed. Mae'r dyn hefyd wedi ei oroesi gan ei ddau riant. Mae gwraig, mab a rhieni'r dyn i gyd yn ddibynnol ar y dyn.

Roedd y dyn wedi gwneud ewyllys gan adael ei ystad gyfan i'w wraig a'i fab.

**Pwy sydd â hawl i hawlio iawndal profedigaeth (bereavement damages) am farwolaeth y dyn o dan Ddeddf Damweiniau Angheuol (Fatal Accidents Act) 1976?**

A. Rhieni'r dyn yn unig.

B. Gwraig y dyn yn unig.

C. Mab y dyn yn unig.

D. Mab a gwraig y dyn yn unig.

E. Rhieni, gwraig a mab y dyn.

**Cwestiwn 66**

Nid yw menyw yn gwneud unrhyw warediadau (disposals) at ddiben Treth Enillion Cyfalaf (CGT) yn ystod blwyddyn dreth 2024/25. Fe wnaeth hi golledion o £2,000 at ddiben CGT yn ystod y flwyddyn dreth 2023/24.

**Pa un o’r datganiadau canlynol sy’n rhoi’r disgrifiad gorau o sefyllfa CGT y fenyw?**

A. Gall gario ymlaen ei cholledion o £2,000 yn ogystal â'i heithriad blynyddol ar gyfer 2024/25 am gyfnod amhenodol nes iddi gael cyfle i ddefnyddio'r rhain.

B. Gall gario ymlaen ei cholledion o £2,000 am gyfnod amhenodol nes iddi gael cyfle i'w defnyddio a gall gario ymlaen ei hesemptiad blynyddol ar gyfer 2024/25 tan 2025/26 yn unig.

C. Gall gario ymlaen ei cholledion o £2,000 tan 2025/26 yn unig a gall gario ymlaen ei hesemptiad blynyddol ar gyfer 2024/25 ymlaen am gyfnod amhenodol nes iddi gael cyfle i'w ddefnyddio.

D. Gall gario ymlaen ei cholledion o £2,000 i'r flwyddyn dreth 2025/26 yn unig ac ni all gario ymlaen ei hesemptiad blynyddol o gwbl yn 2024/25.

E. Gall gario ymlaen ei cholledion o £2,000 am gyfnod amhenodol nes iddi gael cyfle i'w defnyddio ac ni all gario ymlaen ei hesemptiad blynyddol ar gyfer 2024/25 o gwbl.

**Cwestiwn 67**

Mae menyw ('yr Hawlydd') yn cyfarwyddo cyfreithiwr i gyflwyno hawliad am iawndal (damages) yn erbyn cwmni o gynghorwyr ariannol ('y Diffynnydd') ar y sail ei fod wedi rhoi cyngor esgeulus iddi pan oedd hi'n gleient i'r cwmni. Mae gwerth yr hawliad yn fwy na £100,000.

Mae'r diffynnydd yn cyfarwyddo cyfreithiwr ac mae amddiffyniad yn cael ei ffeilio a'i gyflwyno. Ar yr un diwrnod ag y caiff yr amddiffyniad ei ffeilio a'i gyflwyno, mae cyfreithiwr y Diffynnydd yn gwneud cynnig Rhan 36 o £125,000 ('y Cynnig') ar ran ei chleient hi. Y cyfnod perthnasol ar gyfer derbyn y Cynnig yw 21 niwrnod.

Wythnos ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddod i ben mae cyfreithiwr y Diffynnydd yn cwrdd mewn cynhadledd â'r Cwnsler (Counsel) i drafod yr achos. Bythefnos ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddod i ben mae cyfreithiwr y Diffynnydd yn derbyn llythyr gan yr Hawlydd yn datgan nad oes ganddi gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ei rhan mwyach. Mae ei llythyr hefyd yn cynnwys hysbysiad o dderbyn y Cynnig gyda chadarnhad bod ei hysbysiad o dderbyn hefyd wedi'i ffeilio gyda'r llys.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio'r canlyniadau mwyaf tebygol o safbwynt costau yn yr achos?**

A. Bydd yr Hawlydd yn talu costau'r Diffynnydd yn yr achos ar y sail safonol.

B. Bydd yr Hawlydd yn talu costau'r Diffynnydd yn yr achos ar y sail indemniad.

C. Bydd y Diffynnydd yn talu costau'r Hawlydd ar y sail safonol hyd at ddiwedd y cyfnod perthnasol, ac wedi hynny bydd yr Hawlydd yn talu costau'r Diffynnydd ar y sail safonol.

D. Bydd y Diffynnydd yn talu costau'r Hawlydd yn yr achos ar y sail safonol.

E. Bydd y Diffynnydd yn talu costau'r Hawlydd ar y sail indemniad hyd at ddiwedd y cyfnod perthnasol, ac wedi hynny bydd yr Hawlydd yn talu costau'r Diffynnydd ar y sail indemniad.

**Cwestiwn 68**

Mae adeiladwr hunangyflogedig sy'n dymuno prynu nwyddau gan gwmni cyflenwadau adeiladu yn cysylltu â chyfreithiwr i gael cyngor am y contract ysgrifenedig un dudalen y mae'r cwmni wedi'i anfon ato. Mae tu cefn y contract yn datgan telerau busnes ysgrifenedig safonol y cwmni. Gofynnwyd i'r adeiladwr lofnodi, dyddio a dychwelyd y contract i'r cwmni os yw'n dymuno ei ddefnyddio i gyflenwi nwyddau. Nid yw'r cwmni wedi cyfathrebu â'r adeiladwr mewn unrhyw ffordd arall.

Mae'r cyfreithiwr yn darllen y contract, gan gynnwys y telerau a geir ar y cefn. Mae'n datgan yn gywir bod y telerau wedi'u hymgorffori ond mae'n nodi bod un o'r telerau busnes ysgrifenedig safonol yn ceisio eithrio math o atebolrwydd na ellir ei eithrio dan unrhyw amgylchiadau eraill.

**Pa un o'r telerau canlynol y mae'r cyfreithiwr yn cyfeirio ato?**

A. Eithrio atebolrwydd am gamliwiad (misrepresentation) a wnaed gan y cwmni cyn yr ymrwymwyd i'r contract.

B. Eithrio atebolrwydd am dorri'r teler ymhlyg (implied term) statudol y bydd y nwyddau'n addas at ddiben penodol.

C. Eithrio atebolrwydd am dorri'r teler ymhlyg (implied term) statudol bod gan y gwerthwr deitl i'r nwyddau adeg y gwerthiant.

D. Eithrio atebolrwydd am dorri'r teler ymhlyg (implied term) statudol y bydd y nwyddau a gyflenwir o ansawdd boddhaol.

E. Eithrio atebolrwydd am dorri'r teler ymhlyg (implied term) statudol y bydd y nwyddau a werthir trwy ddisgrifiad yn cyd-fynd â'r disgrifiad hwnnw.

**Cwestiwn 69**

Mae modurwr yn achosi gwrthdrawiad drwy esgeuluster â char arall sy'n cael ei yrru gan fenyw. O ganlyniad i'r gwrthdrawiad esgeulus, mae'r fenyw'n dioddef nifer o golledion.

Mae hi'n dioddef anafiadau difrifol i'w llaw a'i braich y bydd angen ffisiotherapi helaeth ar eu cyfer. Mae'r fenyw'n bwriadu talu am ffisiotherapi preifat gan fod y rhestr aros yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn fisoedd lawer. Mae difrod difrifol i'w char ac mae angen gwaith trwsio sylweddol arno. Roedd ei gliniadur ar sedd teithiwr (passenger seat) y car ac mae wedi'i ddifrodi i'r graddau nad oes modd ei drwsio. Mae'r fenyw'n defnyddio'r gliniadur at ddibenion busnes. Cafodd modrwy ddyweddïo'r fenyw sy'n werth £10,000 ei dinistrio yn y ddamwain wrth i'r diemwntau ynddi chwalu gyda grym y gwrthdrawiad.

Mae'r fenyw yn dwyn hawliad mewn esgeuluster am yr holl golledion hyn. Mae'r gyrrwr yn derbyn cyfrifoldeb am y gwrthdrawiad ond yn gwadu cwantwm.

**Yn ogystal ag atebolrwydd am yr anaf personol a'r difrod i'r car, pa golledion eraill y mae'r modurwr yn atebol amdanynt?**

A. Triniaeth ffisiotherapi breifat y fenyw, ei gliniadur a'i modrwy ddyweddïo.

B. Triniaeth ffisiotherapi breifat y fenyw yn unig.

C. Modrwy ddyweddïo a gliniadur y fenyw yn unig.

D. Gliniadur y fenyw yn unig.

E. Modrwy ddyweddïo'r fenyw a thriniaeth ffisiotherapi breifat yn unig.

**Cwestiwn 70**

Mae menyw yn gweithio i elusen leol ar gyfer pobl anabl. Prif swyddogaeth yr elusen yw trefnu cludiant i bobl anabl yn y gymuned a'r cyffiniau. Mae'r elusen yn defnyddio un cwmni penodol o yrwyr tacsis i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae'r fenyw yn darllen mewn papur newydd am ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i yrwyr tacsis helpu pobl anabl wrth ddefnyddio eu tacsis. Mae'r fenyw yn cael gafael ar y ddeddfwriaeth ac yn canfod fel a ganlyn:

Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Pobl Anabl) 2022
2022 PENNOD 29
Deddf sy'n darparu ar gyfer cludo pobl anabl mewn tacsis a cherbydau hurio preifat. [28 Ebrill 2022]

Mae'r fenyw eisiau gwybod beth yw arwyddocâd y dyddiad 28 Ebrill 2022 ac mae'n ffonio cyfreithiwr yr elusen am gyngor cyfreithiol.

**Beth dylai'r cyfreithiwr ei gynghori?**

A. Dyma'r dyddiad y cyflwynwyd drafft diweddaraf y statud i Dŷ'r Cyffredin.

B. Dyma'r dyddiad dros dro a bennwyd i'r statud ddod i rym.

C. Dyma'r dyddiad y cafodd y statud Gydsyniad Brenhinol (Royal Assent).

D. Dyma ddyddiad cychwyn y statud.

E. Dyma'r dyddiad y pasiodd y statud ei Chyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

**Cwestiwn 71**

Mae paragyfreithiwr wedi’i gyflogi gan gwmni o gyfreithwyr, sydd wedi'i awdurdodi fel corff gwasanaethau cyfreithiol.

Nid yw'r paragyfreithiwr wedi gweithio mewn cwmni o gyfreithwyr o'r blaen ac nid oes ganddi brofiad gwaith perthnasol arall. Mae hi'n gweithio yn yr adran adennill dyledion ymgyfreitha sifil ac mae ei gwaith yn cael ei oruchwylio'n uniongyrchol gan gyfreithiwr cymwys sy'n gweithio yn yr adran.

**A fydd y paragyfreithiwr yn ddarostyngedig i reoliadau rheoleiddiwr cyfreithiol cymeradwy (approved)?**

A. Bydd, gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr.

B. Bydd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol.

C. Bydd, gan Gymdeithas y Cyfreithwyr.

D. Na fydd, fel paragyfreithiwr, nid yw'n ddarostyngedig i reoliadau.

E. Na fydd, gan ei bod yn cael ei goruchwylio'n uniongyrchol gan gyfreithiwr cymwys.

**Cwestiwn 72**

Mae cwmni newydd o gyfreithwyr wedi'i gofrestru'n wirfoddol ar gyfer Treth ar Werth (TAW) ac yn cynnig gwasanaethau ar gyfradd safonol yn unig. Yn ystod y cyfnod TAW perthnasol mae'n codi treth allbwn o £10,000 ar ei wasanaethau ac mae'n talu treth mewnbwn o £20,000 ar y nwyddau mae'n eu prynu at ddibenion ei fusnes ac ar ei filiau gwresogi.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio sefyllfa'r cwmni orau ar ddiwedd y cyfnod TAW perthnasol?**

A. Nid oes rhaid i'r cwmni dalu unrhyw TAW ac ni all adennill unrhyw TAW.

B. Gall y cwmni adennill £10,000 o TAW.

C. Gall y cwmni adennill £20,000 o TAW.

D. Mae'n rhaid i'r cwmni dalu £10,000 o TAW.

E. Mae'n rhaid i'r cwmni dalu £20,000 o TAW.

**Cwestiwn 73**

Mae cyfreithiwr sydd wedi'i gyflogi gan gwmni yn gweithredu ar ran cleient wrth brynu eiddo preswyl newydd sbon am £350,000. Cafodd contractau eu cyfnewid ychydig fisoedd yn ôl, mae'r gwaith adeiladu wedi dod i ben ac mae'r dyddiad cwblhau wedi'i bennu ar gyfer yr wythnos nesaf.

Chwe wythnos yn ôl, cyflwynwyd adroddiad gweithgarwch amheus (SAR) yn gywir ar-lein i'r awdurdod priodol gan swyddog enwebedig y cwmni o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd gan y cyfreithiwr bod y cleient yn ymwneud â gwyngalchu arian (money laundering). Roedd y SAR yn cynnwys cais am ganiatâd i fwrw ymlaen â chwblhau pryniant yr eiddo.

Derbyniwyd hysbysiad gwrthod cydsyniad i gwblhau'r pryniant bum wythnos yn ôl. Ni fu gohebiaeth bellach gan yr awdurdod priodol nac unrhyw gais ganddo i'r llys ers hynny. Ni chymerwyd unrhyw gamau yn erbyn y cleient na'i asedau, ac nid yw'r cleient wedi cael gwybod ei fod yn destun ymchwiliad i wyngalchu arian.

**A fydd y swyddog enwebedig yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 os yw'n rhoi cydsyniad i'r cyfreithiwr fwrw ymlaen â'r pryniant yr wythnos nesaf?**

A. Bydd, oherwydd bod hysbysiad gwrthod cydsyniad wedi'i dderbyn.

B. Bydd, oherwydd nid yw'r hysbysiad gwrthod cydsyniad wedi'i wrthdroi (reversed) o fewn y 31 niwrnod canlynol.

C. Na fydd, oherwydd bod dros 31 niwrnod wedi bod ers cyflwyno'r SAR.

D. Na fydd, oherwydd nid yw'r cleient wedi cael gwybod ei fod yn destun ymchwiliad gwyngalchu arian ac nid yw unrhyw gamau wedi'u cymryd yn erbyn y cleient na'i asedau.

E. Na fydd, oherwydd bod dros 31 niwrnod wedi bod ers i'r hysbysiad gwrthod cydsyniad gael ei dderbyn.

**Cwestiwn 74**

Rhoddir llechen electronig newydd ('y Llechen') i fenyw yn anrheg pen-blwydd oddi wrth ei ffrind. Prynodd y ffrind y llechen gan fanwerthwr lleol ('y Manwerthwr'). Nid oedd y Manwerthwr yn ymwybodol bod y ffrind yn ei brynu'n anrheg i'r fenyw.

Wrth geisio defnyddio'r Llechen, mae'r fenyw yn darganfod nad yw'n gallu ei droi ymlaen am fod nam ar y botwm pŵer. Nid yw'r fenyw eisiau dweud wrth ei ffrind nad yw'r Llechen yn gweithio oherwydd ei fod yn anrheg pen-blwydd ac felly mae'n mynd â'r Llechen i siop drwsio leol.

Mae'r siop yn trwsio'r nam ar y Llechen am gost o £150, y mae'r fenyw yn ei thalu. Mae'r fenyw'n dymuno siwio'r Manwerthwr mewn esgeuluster i adennill y £150.

**A all y fenyw adennill y gost drwsio o £150 mewn esgeuluster gan y Manwerthwr?**

A. Na all, oherwydd bod y nam ar y Llechen yn golled anrhagweladwy.

B. Gall, oherwydd bod y Llechen yn ddiffygiol.

C. Gall, oherwydd bod y gost drwsio yn golled economaidd ganlyniadol (consequential).

D. Na all, oherwydd bod y gost drwsio yn golled economaidd pur.

E. Gall, oherwydd bod y Manwerthwr yn gwbl atebol (strictly liable) am y gost drwsio.

**Cwestiwn 75**

Mae cwmni cyfyngedig preifat ('y Gwerthwr') wedi ymrwymo i gontract gyda chwmni cyfyngedig preifat arall ('y Prynwr') mewn perthynas â gwerthu 8,000 o goed Nadolig am bris o £160,000. Roedd y contract yn darparu ar gyfer llog o 7% y flwyddyn i'w dalu ar bob taliad hwyr.

Dosbarthodd y Gwerthwr y coed yn unol â'r contract, ond nid yw'r Prynwr wedi talu'r pris. Mae'r Gwerthwr wedi cydymffurfio â'r gofynion cyn gweithredu (pre-action) angenrheidiol ac erbyn hyn mae'n dymuno cychwyn achos (issue proceedings) yn erbyn y Prynwr am y swm sy'n ddyledus a llog ar y swm hwnnw. Mae cyfreithiwr y Gwerthwr yn drafftio'r ffurflen hawlio.

**Pa hawliad am log dylai gael ei gynnwys yn y ffurflen hawlio?**

A. Llog ar 8% y flwyddyn o dan adran 35A o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 neu adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984.

B. Llog ar 7% y flwyddyn o dan y contract.

C. Llog ar 8% y flwyddyn dros gyfradd sylfaenol Banc Lloegr o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

D. Llog ar 10% y flwyddyn o dan adran 35A o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 neu adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984.

E. Llog ar 1% y flwyddyn dros gyfradd sylfaenol Banc Lloegr o dan naill ai adran 35A o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 neu adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984.

**Cwestiwn 76**

Mae cyfreithiwr yn cynrychioli cleient mewn gwrandawiad cyflafareddu (arbitration) a fydd yn cynnwys archwilio tystion. Mae cynrychiolydd cyfreithiol ('y Cynrychiolydd') yn gweithredu ar ran y parti gwrthwynebol yn y cyflafareddu.

Mae'r cleient yn gweld y Cynrychiolydd yn siarad â thyst ar ran y parti gwrthwynebol y tu allan i ystafell y gwrandawiad. Mae'r cleient yn clywed y Cynrychiolydd yn dweud wrth y tyst pa gwestiynau i'w disgwyl yn ystod ei chroesholi a'r atebion y dylai hi eu rhoi i'r cwestiynau hynny.

Mae'r cleient yn sôn am hyn wrth y cyfreithiwr ac yn cyfarwyddo'r cyfreithiwr i gael sgyrsiau tebyg â thystion sy'n rhoi tystiolaeth ar ran y cleient.

**Pa un o'r canlynol sy'n berthnasol o ran a ganiateir i'r cyfreithiwr gael sgyrsiau o'r fath?**

A. Mae'r parti gwrthwynebol yn y cyflafareddu yn cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.

B. Bydd sgyrsiau o'r fath yn destun braint gyfreithiol (legal privilege).

C. Nid yw cynnal cyflafareddu yn weithgaredd cyfreithiol neilltuedig (reserved legal activity).

D. Gall sgyrsiau o'r fath ddylanwadu ar sylwedd tystiolaeth y tystion.

E. Mae'r cyfreithiwr wedi cael cyfarwyddyd gan y cleient i gael sgyrsiau o'r fath.

**Cwestiwn 77**

Mae cwmni cyfyngedig preifat yn destun diddymiad ansolfent (insolvent liquidation). Mae'r datodwr (liquidator) wedi gwerthu eiddo'r cwmni ac mae'n dosbarthu'r enillion i'r rhai sydd â hawl iddynt. Gwerth eiddo net y cwmni at ddibenion Deddf Ansolfedd 1986 ('yr Eiddo Net') yw £100,000. Nid yw'r datodwr wedi dosbarthu i unrhyw un o'r credydwyr canlynol eto:

- banc y cwmni, y mae £110,000 yn ddyledus iddo, ac sy'n dal arwystl ansefydlog (floating charge) dilys a grëwyd chwe blynedd yn ôl dros holl eiddo'r cwmni
- nifer o gredydwyr ansicredig y mae cyfanswm o £50,000 yn ddyledus iddynt

Dim ond cyfrannau cyffredin mae’r cwmni wedi’u cyhoeddi. Talwyd £5,000 yr un i dri chyfranddaliwr y cwmni ar gyfer eu cyfrannau cyffredin (cyfanswm o £15,000).

**Sut y dylai'r datodwr ddosbarthu'r Eiddo Net?**

A. Dylai'r datodwr neilltuo rhan ragnodedig (prescribed) o'r Eiddo Net i'w dosbarthu i'r banc a dosbarthu'r balans i'r credydwyr ansicredig.

B. Dylai'r datodwr ddosbarthu'r holl Eiddo Net i'r banc, oherwydd ei fod yn werth llai na £800,000.

C. Dylai'r datodwr neilltuo rhan ragnodedig (prescribed) o'r Eiddo Net i'w dosbarthu i'r credydwyr ansicredig a dosbarthu'r balans i'r banc.

D. Dylai'r datodwr ddosbarthu'r holl Eiddo Net i'r banc, oherwydd nid yw deiliad yr arwystl ansefydlog yn gysylltiedig â'r cwmni.

E. Dylai'r datodwr neilltuo rhan ragnodedig (prescribed) o'r Eiddo Net i'w dosbarthu i'r cyfranddalwyr a dosbarthu'r balans i'r banc.

**Cwestiwn 78**

Mae pêl-droediwr 17 oed yn ymrwymo i gontract hirdymor gydag asiant i negodi contractau masnachol ar ei ran fel chwaraewr pêl-droed proffesiynol. Nid yw rhieni'r pêl-droediwr yn cyd-lofnodi'r contract. Fis yn ddiweddarach, gyda'r pêl-droediwr yn dal yn i fod yn 17 oed, mae'r pêl-droediwr yn penderfynu nad yw am i'r asiant ei gynrychioli mwyach a'i fod am ddod â'r contract i ben.

**A all y pêl-droediwr derfynu'r contract?**

A. Na all, oherwydd bod ganddo alluedd (capacity) llawn gan ei fod dros 16 oed.

B. Na all, oherwydd mai contract masnachol yw hwn, nid contract defnyddiwr.

C. Na all, oherwydd ei fod dan oed a chontract ar gyfer angenrheidiau (necessaries) yw hwn.

D. Gall, oherwydd ei fod dan oed ac nid yw'n gontract ar gyfer angenrheidiau (necessaries).

E. Gall, oherwydd nid oedd ei rieni yn gyd-lofnodwyr i'r contract.

**Cwestiwn 79**

Mae'r gyfraith ar Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru wrthi'n cael ei hadolygu gyda chynigion yn cael eu gwneud i gynyddu'r dreth sydd i'w thalu am eiddo a ddefnyddir fel cartref gwyliau.

Mae menyw sydd wedi cofrestru i bleidleisio ac sy'n byw yng Nghymru, ond sy'n Saesnes, yn dymuno mynegi ei gwrthwynebiad i'r newidiadau arfaethedig. Mae hi'n bwriadu ysgrifennu at ei chynrychiolydd etholedig sy'n aelod o gorff sydd â'r pŵer i bleidleisio ar y mater hwn.

Hoffai wybod a ddylai hi ysgrifennu at ei Haelod Seneddol yn San Steffan ('AS San Steffan') neu at ei Haelod o Senedd Cymru ('AS Cymru').

**At ba gynrychiolydd/gynrychiolwyr etholedig y dylai'r fenyw ysgrifennu?**

A. At ei AS San Steffan oherwydd bod hyn yn ymwneud â mater neilltuedig (reserved matter) i Senedd y DU.

B. At ei AS Cymru oherwydd bod hyn yn ymwneud â phŵer datganoledig Senedd Cymru.

C. At ei AS San Steffan oherwydd bod hyn yn ymwneud â phŵer a roddwyd (conferred power) Senedd y DU.

D. At ei AS San Steffan a'i AS Cymru oherwydd bod hyn yn ymwneud â phŵer ar y cyd rhwng Senedd y DU a Senedd Cymru.

E. At ei AS Cymru oherwydd bod hyn yn ymwneud â phŵer neilltuedig (reserved power) Senedd Cymru.

**Cwestiwn 80**

Mae dyn yn cael ei arestio a'i gadw mewn gorsaf heddlu ar amheuaeth o ymosodiad cyffredin sy'n drosedd ddiannod yn unig (summary only offence). Mae'r dyn yn ddigartref ac nid oes unrhyw incwm ganddo.

Nid yw'r dyn yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol yn ystod ei gyfweliad dan rybudd (under caution), lle mae'n gwadu'r drosedd. Ar ôl y cyfweliad dywedir wrth y dyn y bydd yn cael ei gyhuddo o (charged with) y drosedd. Mae'r dyn yn dweud ei fod eisiau cyngor cyfreithiol nawr gan nad yw am i'r heddlu ei gyhuddo.

**A oes gan y dyn yr hawl i gael cyngor cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus yng ngorsaf yr heddlu?**

A. Nac oes, oherwydd bod y drosedd y mae wedi cael ei arestio yn ei chylch yn drosedd ddiannod yn unig.

B. Oes, oherwydd nid oes ganddo gyfeiriad yng Nghymru na Lloegr.

C. Oes, oherwydd iddo gael ei arestio ac mae yn y ddalfa mewn gorsaf heddlu.

D. Oes, oherwydd ei fod yn bodloni'r prawf modd.

E. Nac oes, oherwydd bod y cyfweliad dan rybudd eisoes wedi digwydd.

**Cwestiwn 81**

Yn ystod y 24 mlynedd diwethaf mae dyn wedi rhedeg busnes mewn safle ar gyrion pentref. Cafodd y dyn ganiatâd cynllunio ar gyfer y defnydd busnes hwn pan ddechreuodd ei fusnes. Mae'r unig dŷ sydd yng nghyffiniau busnes y dyn dan berchnogaeth a meddiant menyw ers 22 mlynedd.

Mae'r sŵn o fusnes y dyn bob amser wedi bod yn sylweddol ond wnaeth y fenyw ddim cwyno am fod ei thad yn ffrindiau mawr gyda'r dyn. Bu farw tad y fenyw dri mis yn ôl ac mae hi bellach wedi dwyn achos mewn niwsans preifat yn erbyn y dyn. Derbynnir bod y lefelau sŵn, nad ydynt wedi newid ers i'r busnes ddechrau, yn niwsans cyfreithadwy (actionable nuisance) oni bai bod y dyn yn gallu codi amddiffyniad llwyddiannus.

**A all y dyn ddefnyddio amddiffyniad presgripsiwn (defence of prescription) yn llwyddiannus?**

A. Na all, oherwydd dim ond pan gwynodd y fenyw am y sŵn y daeth yr hawliad yn gyfreithadwy.

B. Gall, oherwydd bod y dyn wedi rhedeg ei fusnes ers dros 20 mlynedd heb gŵyn.

C. Na all, oherwydd nid yw'r amddiffyniad yn berthnasol mewn niwsans preifat.

D. Gall, oherwydd bod y dyn wedi cael caniatâd cynllunio.

E. Na all, oherwydd daeth y niwsans yn berthnasol i'r fenyw wedi i'r dyn ddechrau rhedeg ei fusnes.

**Cwestiwn 82**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran hawlydd yn ei hawliad yn erbyn cwmni lleol o gyfrifwyr ('y Diffynnydd'). Honiad yr hawlydd yw iddi weithredu yn sgil cyngor esgeulus a ddarparodd y Diffynnydd. Dilynwyd yr holl weithdrefnau cyn gweithredu (pre-action) priodol ac mae achos wedi'i gychwyn a'i gyflwyno (issued and served).

Mae'r cyfreithiwr yn derbyn e-bost gan y cwmni o gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y Diffynnydd, sy'n egluro bod y cyfreithiwr a oedd wedi bod yn rhoi sylw i'r mater wedi bod yn absennol o'r swyddfa oherwydd salwch. Mae'r cwmni wedi ffeilio cydnabyddiad cyflwyno (acknowledgment of service) gyda'r llys ar ran y Diffynnydd ond mae angen ymestyn yr amser er mwyn paratoi a ffeilio amddiffyniad ei gleient.

Mae cyfreithiwr yr hawlydd yn cytuno i estyniad o saith diwrnod ar gyfer ffeilio'r amddiffyniad a rhoddir gwybod i'r llys yn ysgrifenedig.

Ar y dyddiad y disgwylir i gyfnod yr estyniad o saith diwrnod y cytunwyd arno ddod i ben, mae cyfreithiwr y Diffynnydd yn gofyn am estyniad pellach i'r amser ar gyfer ffeilio'r amddiffyniad.

**Beth yw'r estyniad pellach, os o gwbl, y gall cyfreithiwr yr hawlydd gytuno iddo heb ganiatâd y llys?**

A. Estyniad o 7 diwrnod arall.

B. Estyniad o 14 diwrnod arall.

C. Estyniad o 21 niwrnod arall.

D. Estyniad o 28 niwrnod arall.

E. Ni chaniateir estyniad pellach.

**Cwestiwn 83**

Mae gan gwmni cyfyngedig preifat erthyglau enghreifftiol heb eu diwygio fel y nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008. Mae'r cwmni wedi cyhoeddi cyfrannau cyffredin yn unig ac nid oes ganddo gytundeb cyfranddalwyr. Mae ei gyfres ddiweddaraf o gyfrifon yn dangos na wnaeth y cwmni elw na cholled yn ystod y cyfnod cyfrifyddu diweddaraf, er bod ganddo elw dosbarthadwy (distributable profits) o £50,000 a gariwyd ymlaen o gyfnodau cyfrifyddu blaenorol. Mae'r cyfranddalwyr am i'r cwmni ddatgan difidend allan o'r elw hwn, ond mae'r cyfarwyddwyr yn bwriadu cadw'r elw o fewn y cwmni i ariannu ehangiad masnach y cwmni.

**A all y cyfranddalwyr orfodi'r cyfarwyddwyr i argymell difidend?**

A. Gallant, oherwydd bod gan y cyfarwyddwyr ddyletswydd i weithredu er budd gorau'r cyfranddalwyr.

B. Gallant, oherwydd bod gan y cyfranddalwyr y pŵer i fynnu ar dalu difidend trwy benderfyniad cyffredin (ordinary resolution).

C. Gallant, oherwydd bod gan y cyfranddalwyr yr hawl i dderbyn difidend os oes gan y cwmni elw dosbarthadwy.

D. Na allant, oherwydd dim ond y cyfarwyddwyr sydd â'r pŵer i argymell taliad difidend.

E. Na allant, oherwydd gall y cyfarwyddwyr argymell difidend allan o elw o'r cyfnod cyfrifyddu diweddaraf yn unig.

**Cwestiwn 84**

Mae unig fasnachwr, sy'n gweithredu fel masnachwr adeiladwyr (builders' merchant), yn ymrwymo i gontract gyda chwmni i logi tryc fforch godi. Mae telerau'r contract yn ysgrifenedig a rhoddir cyfle i'r unig fasnachwr ddarllen y contract yn llawn cyn iddo ei lofnodi.

Nid yw'r unig fasnachwr yn darllen y contract ond mae'n ei lofnodi. Mae'r cymal llofnodi yn darparu mewn priflythrennau bras:

"RWYF/RYDYM WEDI DARLLEN Y CONTRACT YN LLAWN AC YN DEALL EI DELERAU."

Mae'r contract yn nodi bod y tryc fforch godi yn cael ei logi am gyfnod penodol o dair blynedd a bod ffi yn daladwy i'r cwmni os yw'r unig fasnachwr yn dymuno ei derfynu'n gynnar ('y Cymal').

Mae'r unig fasnachwr yn ceisio dychwelyd y tryc fforch godi chwe mis ar ôl llofnodi'r contract gan iddo ddod o hyd i ddewis arall sy'n rhatach. Mae'r cwmni'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r unig fasnachwr dalu'r ffi a bennir am derfynu'n gynnar.

Yna, mae'r unig fasnachwr yn darllen y contract. Mae'n honni nad oedd Cymal wedi ei ymgorffori yn y contract oherwydd nid oedd wedi ei ddarllen ac nid oedd wedi delio â'r cwmni o'r blaen.

**A oedd y Cymal wedi'i ymgorffori yn y contract?**

A. Oedd, oherwydd bod yr unig fasnachwr wedi llofnodi'r contract.

B. Nac oedd, oherwydd na thynnwyd y Cymal at sylw'r unig fasnachwr yn benodol cyn iddo lofnodi.

C. Nac oedd, oherwydd nid oedd unrhyw ddelio blaenorol (previous course of action) wedi bod rhwng yr unig fasnachwr a'r cwmni.

D. Oedd, oherwydd bod yr unig fasnachwr yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel busnes nid fel defnyddiwr.

E. Nac oedd, oherwydd ni ddarllenodd yr unig fasnachwr y Cymal tan rai misoedd ar ôl llofnodi'r contract.

**Cwestiwn 85**

Mae gan awdurdod lleol bŵer statudol i brynu tir yn orfodol at ddibenion adeiladu tai preswyl a ffyrdd mynediad i'r tai. Mae'r awdurdod lleol yn cymeradwyo cynllun datblygu ac yn bwriadu caffael y tir y mae ei angen ar gyfer y cynllun datblygu drwy brynu gorfodol. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys stad o dai newydd a chyfadeilad sinema a siopa mawr, gyda ffordd ddeuol yn mynd drwy'r stad o dai newydd er mwyn darparu'r mynediad angenrheidiol.

Mae preswylydd lleol, y byddai ei dir yn cael ei brynu'n orfodol dan y cynllun datblygu, yn dymuno dwyn achos dros adolygiad barnwrol (bring judicial review proceedings) yn erbyn yr awdurdod lleol i herio'r cynllun datblygu.

**Pa un o'r canlynol sy'n egluro orau a yw'r preswylydd lleol yn gallu dwyn achos dros adolygiad barnwrol?**

A. Gall wneud hyn oherwydd bod y ffeithiau'n awgrymu y gallai'r awdurdod lleol fod wedi gweithredu'n anghyfreithlon.

B. Ni all wneud hyn oherwydd nid yw penderfyniadau cynllunio yn ddarostyngedig i achos dros adolygiad barnwrol.

C. Gall wneud hyn oherwydd bod y ffeithiau'n awgrymu y gallai gweithredoedd yr awdurdod lleol fod yn annheg yn weithdrefnol.

D. Ni all wneud hyn oherwydd ni all preswylydd unigol ddwyn achos.

E. Ni all wneud hyn oherwydd bod yr awdurdod lleol yn gweithredu o fewn ei bwerau statudol.

**Atebion**

| Cwestiwn | Ateb | Cwestiwn | Ateb |
|---|---|---|---|
| 1 | B | 46 | A |
| 2 | C | 47 | A |
| 3 | D | 48 | C |
| 4 | C | 49 | A |
| 5 | C | 50 | D |
| 6 | D | 51 | E |
| 7 | C | 52 | A |
| 8 | C | 53 | C |
| 9 | B | 54 | A |
| 10 | D | 55 | C |
| 11 | B | 56 | A |
| 12 | D | 57 | B |
| 13 | C | 58 | A |
| 14 | D | 59 | C |
| 15 | D | 60 | E |
| 16 | B | 61 | D |
| 17 | E | 62 | A |
| 18 | A | 63 | E |
| 19 | E | 64 | A |
| 20 | D | 65 | B |
| 21 | A | 66 | E |
| 22 | E | 67 | C |
| 23 | B | 68 | C |
| 24 | A | 69 | A |
| 25 | A | 70 | C |
| 26 | B | 71 | A |
| 27 | C | 72 | B |
| 28 | A | 73 | E |
| 29 | B | 74 | D |
| 30 | D | 75 | B |
| 31 | B | 76 | D |
| 32 | C | 77 | C |
| 33 | D | 78 | D |
| 34 | A | 79 | B |
| 35 | D | 80 | C |
| 36 | E | 81 | B |
| 37 | D | 82 | C |
| 38 | A | 83 | D |
| 39 | C | 84 | A |
| 40 | A | 85 | A |
| 41 | D | | |
| 42 | A | | |
| 43 | B | | |
| 44 | B | | |
| 45 | D | | |

Mae’r ddogfen hon yn ddarostyngedig i’n telerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys y darpariaethau hawlfraint a nodau masnach.

I gael gwybod mwy: https://sqe.sra.org.uk/policies/website-terms-and-conditions-policy